**CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG**
**CYMRU 2007-13**
**GWERTHUSIAD *EX-POST* CRYNO**

Adroddiad Cenedlaethol i
Llywodraeth Cymru
a gyflwynwyd gan


**Agra CEAS Consulting**

Dr B. Dylan Bradley
Yr Athro Berkeley Hill


Ar sail y gwerthusiad *ex-post* llawn
a wnaed gan Agra CEAS Consulting
a RSK ADAS


Ffôn: *44 (0)1233 812181
Ffacs: *44 (0)1233 813309
E-bost: info@ceasc.com
www.ceasc.com



Rhif y Gwaith 2833/BDB/22-12-16



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Dadansoddi ar gyfer Polisi
Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth
GSR
Government Social Research
Analysis for Policy

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

LEADER

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

# Cynnwys

**S1. CRYNODEB GWEITHREDOL .......... II**

**1. CYFLWYNIAD .......... 1**

**2. AMCANION A STRWYTHURAU CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG CYMRU (Y MESURAU A'R CYNLLUNIAU A'U DARPARIAETH) .......... 5**

**3. DYRANIAD ARIANNOL A'I DDEFNYDD .......... 9**

**4. METHODOLEG A SAIL TYSTIOLAETH Y GWERTHUSIAD EX-POST .......... 11**

**5. GWERTHUSIAD O GANLYNIAD Y CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG – BETH A GYFLAWNWYD GAN Y CYNLLUN? .......... 15**

5.1. THEMA 1: GWELLA MANTAIS GYSTADLEUOL Y SECTORAU AMAETHYDDOL A CHOEDWIGAETH .......... 17
5.2. THEMA 2: DATBLYGU'R ECONOMI GWLEDIG (Y MAE BUSNESAU FFERM YN RHAN OHONO) .......... 22
*5.2.1. Gweithgaredd economaidd a chynhyrchiant llafur .......... 22*
*5.2.2. Creu cyflogaeth (wedi'i fesur mewn swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn ychwanegol net) .......... 24*
*5.2.3. Arloesedd (cynhyrchion newydd, marchnadoedd newydd, technegau newydd) .......... 26*
5.3. THEMA 3: ANSAWDD BYWYD MEWN ARDALOEDD GWLEDIG .......... 29
5.4. THEMA 4: GWELLA'R AMGYLCHEDD A CHEFN GWLAD .......... 33
*5.4.1. Bioamrywiaeth a thirlun .......... 33*
*5.4.2. Ansawdd y dŵr a'i reolaeth (ansawdd, defnydd a maint) .......... 36*
*5.4.3. Lliniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd .......... 38*
*5.4.4. Cyflenwi ynni adnewyddadwy .......... 39*
5.5. CYFLAWNIAD YN NHERMAU THEMÂU TRAWSBYNCIOL .......... 41
*5.5.1. Ffermwyr ifanc .......... 42*
*5.5.2. Merched .......... 42*

**6. GWERTHUSO'R DULLIAU DARPARU .......... 45**

**7. PERFFORMIAD Y DULLIAU SY'N CAEL EU HARIANNU DAN Y PENNAWD CYMORTH TECHNEGOL .......... 50**

7.1. RHWYDWAITH GWLEDIG CYMRU (WRN) .......... 51
7.2. CYFATHREBU .......... 52

**8. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION .......... 54**

## S1. Crynodeb gweithredol

Cafodd Agra CEAS Consulting, gyda chefnogaeth ADAS, ei gontractio gan Lywodraeth Cymru i wneud gwerthusiad *ex-post* o Raglen Datblygiad Gwledig Cymru (RDP) 2007-13 yn unol â Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1698/2005 a Rheoliad Comisiwn (CE) Rhif 1974/2006. Mae'r adroddiad gwerthuso hwnnw'n ddogfen hir a manwl a gofynnodd Llywodraeth Cymru am y fersiwn byrrach hwn (yr Adroddiad Cryno) i gyfleu'r prif negeseuon, a hynny mewn ffordd fwy cryno.

Defnyddiodd y gwerthusiad *ex-post* ddeunydd a oedd eisoes ar gael (tystiolaeth a data eilaidd) yn sail i'w dystiolaeth. Ategwyd hyn gyda chyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol a swyddogion Llywodraeth Cymru, ynghyd ag arolwg ar-lein ehangach o randdeiliaid.

Yn unol ag amcanion yr Echelau a ffurfiodd Raglen Datblygiad Gwledig Cymru 2007-13, mae'r adroddiad cryno yma'n cyflwyno'r effeithiau yn erbyn pedair thema o'r Rhaglen Datblygu Gwledig a themâu trawsbynciol ychwanegol. Aseswyd perfformiad y mecanweithiau darparu hefyd ynghyd â'r defnydd a wnaed o Gymorth Technegol. Mae ein casgliadau i'w gweld isod.

### S1.1. Gwella mantais gystadleuol y sectorau amaethyddol a choedwigaeth

Darparodd Echel 1 ***welliannau mewn gallu cystadleuol yn y sectorau ffermio a choedwigaeth.*** Cafwyd cyfraniadau amrywiol gan wahanol fesurau (a gwahanol elfennau o'r cynlluniau) yn unol â'u cynllun a'u pwrpas. Er bod tystiolaeth gref o effaith bositif (ond cymedrol) Cyswllt Ffermio a'r cynllun Grant Prosesu a Marchnata, nid oes digon o ddata i fesur effaith mesurau eraill. Fel y disgwyliwyd, roedd effaith Echelau 2 a 3 ar allu cystadleuol yn finimol ac, yn achos Echel 3, roedd weithiau'n amhosibl ei berthnasu'n benodol â'r sectorau ffermio a choedwigaeth.

### S1.2. Datblygu'r economi gwledig (y mae busnesau fferm yn rhan ohono)

Canlyniad y gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig oedd ***cynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros i fuddiolwyr.*** Fodd bynnag, o'u rhoi yng nghyd-destun yr economi gwledig cyfan, roedd y tyfiant yma'n weddol fach, ac nid yw hynny'n syndod o ystyried yr adnoddau oedd ar gael. Arweiniodd y gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig at ***greu oddeutu 3,000 o swyddi**,* y gellid ystyried oddeutu eu hanner yn gynaliadwy ac yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithgareddau a gefnogwyd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dod i'r casgliad bod y swyddi hyn i gyd wedi'u creu'n gyfan gwbl gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, neu na fyddent wedi cael eu creu heb y cymorth. Wedi dweud hynny, crëwyd cyflogaeth sylweddol yn y sector cynradd a phrosesu bwyd ac roedd hyn yn gyfatebol ag oddeutu 3% o'r gyflogaeth gyfan yn y sectorau hyn. Diolch i agweddau o Echelau 1 a 3 cafwyd ***arloesedd*** ar ffurf cyflwyno cynhyrchion a/neu dechnegau newydd a mynediad i farchnadoedd newydd. Darparodd Cyswllt Ffermio newid/sgiliau newydd ac mae'n debygol bod rhywfaint o'r newid yma wedi bod yn arloesol. Hefyd, wrth weithredu'r Rhaglen Datblygu Gwledig, defnyddiwyd agweddau arloesol o dan Echel 2.

### S1.3. Ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig

Gwnaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig gyfraniad uniongyrchol at ***wella ansawdd bywyd*** mewn nifer o ddimensiynau, yn benodol o dan Fesur 321 (gwasanaethau sylfaenol i'r boblogaeth wledig a'r economi, yn cynnwys y Cynllun Cymorth Band Eang); Mesur 322 (adnewyddu a datblygu pentrefi); a, Mesur 323 (cadwraeth ac uwchraddio'r dreftadaeth wledig). Gwelwyd effaith bositif ac anuniongyrchol o nifer o fesurau eraill sy'n ymwneud â chynnal/creu swyddi, darparu sgiliau newydd a hyfforddiant ac arallgyfeirio. Darparodd Echel 2 welliant cyffredinol mewn ansawdd bywyd drwy ddarparu nwyddau cyhoeddus.

### S1.4. Yr amgylchedd naturiol

Mae'n amhosibl rhoi barn feintiol am effaith y Rhaglen Datblygu Gwledig yn nhermau ei chyfraniad at amddiffyn a gwella cyfoeth naturiol a'r tirlun yn cynnwys bioamrywiaeth a choedwigaeth a ffermio sydd o Werth Mawr i Natur oherwydd

bylchau mewn data, y cyfnod o amser rhwng y gweithgaredd a'r effaith, ac ansicrwydd ynghylch priodoliad. Fodd bynnag, cafodd gweithgareddau Echel 2 eu had-drefnu'n fawr yn ystod y cyfnod rhaglennu gyda'r bwriad o ddarparu gwell canlyniadau a sefydlwyd Rhaglen Fonitro a Gwerthuso Glastir i asesu'r effeithiau, er mai dim ond meintiau cymedrol o ddata oedd ar gael mewn perthynas â'r cyfnod 2007-13.

Daethpwyd â chyfanswm o 552,030 hectar o dir o dan reolaeth tir llwyddiannus gyda'r bwriad o helpu i ***wella bioamrywiaeth*** a chyfrannodd 432,998 hectar at ***wella ansawdd dŵr.*** O ganlyniad i amrywiol gynlluniau amaeth-amgylchedd gostyngwyd y defnydd o wrtaith, ac roedd gwerthusiadau o gynlluniau o dan Fesur 121 (Cynllun Ffermio sy'n Sensitif i'r Dalgylch a Chynllun Grant Effeithiolrwydd Glastir) yn dangos bod y rhain yn weithrediadau llwyddiannus. Yn olaf, daeth 417,190 hectar o dan gytundebau rheoli tir sy'n helpu i ***liniaru'r newid yn yr hinsawdd***. Drwy greu coetir o dan Glastir roedd hi'n bosibl gostwng y tir sy'n cynhyrchu llifogydd yn y dyfodol. Cyfrannodd agweddau eraill o'r Rhaglen Datblygu Gwledig, nad ydynt yn rhai Echel 2, at newid yn yr hinsawdd hefyd drwy gefnogi ***cynhyrchu ynni adnewyddadwy****.*

### S1.5. Themâu trawsbynciol

Cynlluniwyd a gweithredwyd y Rhaglen Datblygu Gwledig gyda ***sylw gofalus i gydraddoldeb ac osgoi gwahaniaethu***. Rhoddwyd sylw penodol i anghenion nifer o grwpiau penodol a chasglwyd data monitro y gellid asesu perfformiad yn ei erbyn. Mae'n amlwg fod pob ymdrech resymol wedi ei wneud i osgoi gwahaniaethu o unrhyw fath. Rhoddwyd sylw arbennig i ***ffermwyr ifanc*** *a* ***merched***.

### S1.6. Mecanweithiau darparu

Gan edrych ar y darlun cyffredinol, roedd y Rhaglen Datblygu Gwledig yn berthnasol i'r amcanion a osodwyd iddi, ac roedd yn ***gydlynol*** (yn yr ystyr bod ei strwythur cynlluniau'n arwain at amcanion a bod yr amrywiol gynlluniau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd). Mae tystiolaeth hefyd i ddangos bod ystyriaeth wedi'i roi i'r defnydd gorau o gyllidau oedd newydd ddod ar gael a bod y rhain wedi cael eu dyrannu'n briodol.

Aseswyd bod darpariaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig yn ***effeithiol ac effeithlon***, er bod meysydd y gellid eu gwella. Nid oedd digon o dystiolaeth i asesu ***rhesymoldeb*** y costau darparu, er nad oedd unrhyw beth i awgrymu bod y rhain yn afresymol.

### S1.7. Cymorth Technegol

Roedd yr arian a ddarparwyd o dan adran Cymorth Technegol y Rheoliad Datblygiad Gwledig wedi caniatáu i ystod o weithgareddau a sefydliadau gael eu creu gyda'r bwriad o hwyluso gweithrediad Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13. Yn gyffredinol, ***defnyddiwyd y Cymorth Technegol yn effeithiol*** yn nhermau gwneud gweithgareddau monitro a gwerthuso gorfodol a darparu adnoddau ychwanegol (yn ei hanfod, i dalu am staff ychwanegol) i hwyluso gweithrediad boddhaol y Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-13 a'r trosglwyddiad i Raglen 2014-20. Y ddau weithgaredd sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r hyn a gyflawnodd Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-13 oedd Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRN) a'r Strategaeth Cyfathrebu.

Er y gallwn deimlo'n hyderus bod Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi cyfrannu at gyflawni amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig, nid oedd y cyflawniad yma mor bositif ag y gallai fod. Er bod y deunyddiau cyfathrebu a gyhoeddwyd yn ganolog yn rhai o ***ansawdd uchel*** a'u bod wedi gwella wrth i'r rhaglen symud yn ei blaen, ac eithrio'r presenoldeb ar y we, nid oedd y rhain wedi cynyddu'r ymwybyddiaeth gyffredinol am y Rhaglen Datblygu Gwledig. Terfynwyd y prosiect strategaeth cyfathrebu yn dilyn gwerthusiad 2012, a symudwyd y gweithredu i mewn i Rwydwaith Gwledig Cymru er mwyn gwella effeithiolwydd a chydlyniad. Gwelwn hyn fel tystiolaeth bod sylw wedi'i roi i'r angen am adolygu'r ffordd y gwnaed y cyfathrebu, ac yn enwedig y sensitifrwydd i'r cydbwysedd rhwng gweithgareddau a drefnwyd yn ganolog a gweithgareddau ar lefel y cynllun.

### S1.8. Argymhellion

Rhaid i'r argymhellion roi ystyriaeth i'r ffaith fod y Rhaglen ar gyfer y cyfnod a ganlyn wedi cael ei llunio yn barod, gan dynnu ar werthusiadau blaenorol a gwersi a ddysgwyd, a'i bod yn y broses o gael ei gweithredu. Felly, mae ein hargymellion yn

berthnasol ac yn ymarferol i dderbyn ystyriaeth mewn Rhaglenni Datblygiad Gwledig yn y dyfodol neu mewn unrhyw bolisïau cenedlaethol y gallai Llywodraeth Cymru eu mabwysiadu yn dilyn y pontio o'r Undeb Ewropeaidd:

- **Argymhelliad 1:** **Symud i ffwrdd oddi wth y dull Echelau**. Crëodd yr agwedd yma rwystrau dianghenraid a chyfyngodd ar y dyrannu arian.
- **Argymhelliad 2:** **Ymgorffori'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid o fewn y Rhaglen Datblygu Gwledig** i wella cydlyniad.
- **Argymhelliad 3:** **Rhesymoli'r ddarpariaeth cyngor a gwybodaeth**. Er mai Cyswllt Ffermio oedd prif ddarparydd y Trosglwyddo Gwybodaeth a'r cyngor i ffermwyr, darparwyd cyngor i grwpiau eraill o dan wahanol gynlluniau. Mae'r argymhelliad yma wedi derbyn ystyriaeth ar gyfer y Rhaglen newydd.
- **Argymhelliad 4:** **Ystyried gwneud Rhwydwaith Gwledig Cymru'n annibynnol i Lywodraeth Cymru.** Efallai bod diffyg annibyniaeth wedi gostwng effeithiolrwydd y Rhwydwaith. Ond, mae'r angen am barhad o un cyfnod i'r nesaf a'r angen am atebolrwydd ariannol cadarn yn bwysig hefyd.
- **Argymhelliad 5:** **Adolygu'r dull Strategaeth Cyfathrebu.** Roedd ymgorffori cyfathrebu o fewn Rhwydwaith Gwledig Cymru'n arwydd clir nad oedd y fformwla gwreiddiol yn llwyddiannus; roedd nifer o gynlluniau wedi dewis cynnal eu cyfathrebiad eu hunain.
- **Argymhelliad 6:** **Ailystyried y model darparu cymorth sydd o fewn Echelau 3 a 4 ar hyn o bryd** am fod y model darparu wedi arwain at wahaniaethu rhanbarthol yn y ddarpariaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y defnydd a wneir o LEADER yn sylweddol yn y Rhaglen 2014-20.
- **Argymhelliad 7:** **Gwahaniaethu'n fwy eglur rhwng gweithgareddau prif ffrwd a gweithgareddau arloesol/arbrofol o dan y Rhaglen Datblygu**

**Gwledig.** Byddai hyn yn galluogi i'r olaf weithredu'n fwy effeithiol gan hefyd adael i gynlluniau prif ffrwd fod mor effeithiol ag sy'n bosibl.

- **Argymhelliad 8:** **Gwella argaeledd y dystiolaeth o berfformiad.** Er bod gwelliannau mawr wedi'u gwneud yn y cyswllt hwn, mae bylchau o hyd yn y dystiolaeth sy'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd.
- **Argymhelliad 9:** **Anelu am fwy o hyblygrwydd yng ngwaith cynllunio'r Rhaglen Datblygu Gwledig** i ganiatáu i newidiadau gael eu gwneud, yn enwedig yng nghyd-destun esblygu polisïau yn dilyn y pontio o'r Undeb Ewropeaidd.

# 1. Cyflwyniad


**Negeseuon allweddol**

- Mae'r adroddiad byr hwn yn grynodeb o'r gwerthusiad *ex-post* technegol llawer hirach o Raglen Datblygiad Gwledig Cymru 2007-13 sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Mae rhagor o fanylion yn yr addroddiad hirach, er bod strwythur hwnnw ychydig yn wahanol am ei fod yn darparu'r atebion i gyfres o gwestiynau gwerthuso penodol.

Cafodd Agra CEAS Consulting, gyda chefnogaeth ADAS, ei gontractio gan Lywodraeth Cymru i wneud gwerthusiad *ex-post* o Raglen Datblygiad Gwledig Cymru (RDP) 2007-13 yn unol â Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1698/2005 a Rheoliad Comisiwn (CE) Rhif 1974/2006. Cafodd y Rhaglen Datblygu Gwledig ei chyflwyno yn unol â Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1698/2005 a'i chymeradwyo'n ffurfiol ar Chwefror 20 2008.

Mae amserlen ffurfiol wedi ei gosod yn neddfwriaeth yr UE sy'n nodi bod angen cyflwyno'r gwerthusiad *ex-post* i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn Rhagfyr 31 2016. Darparodd Agra CEAS Consulting adroddiad hir a manwl i Lywodraeth Cymru (y cyfeirir ato wedi hyn fel yr Adroddiad Technegol) a allai gael ei gyflwyno'n brydlon. Roedd yr adroddiad yma'n cynnwys atebion i nifer fawr o gwestiynau penodol a osodwyd gan y Comisiwn sydd naill ai'n gyffredin ar draws yr holl Raglenni Datblygiad Gwledig yn yr Undeb Ewropeaidd, ac felly'n hwyluso cyfuno canfyddiadau ar lefel Gymunedol, neu sy'n rhai penodol i Raglen Datblygiad Gwledig Cymru. Wrth gwrs, mae hefyd yn darparu gwybodaeth fanwl y gellir ei defnyddio at ddibenion cenedlaethol, gan gynnwys sut mae arian Llywodraeth Cymru'n cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad gwledig yng Nghymru. Fodd bynnag, gofynnodd Llywodraeth Cymru am y fersiwn byrrach yma hefyd (yr Adroddiad Cryno) sy'n rhoi'r prif negeseuon, ond mewn ffordd fwy cryno.

Y gwerthusiad *ex-post* yw gofyniad terfynol y fframwaith monitro a gwerthuso a sefydlwyd gan y Comisiwn ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-13. O dan Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd (CMEF), sy'n ymwneud â datblygiad gwledig, roedd pob Rhaglen Datblygu Gwledig ar draws yr aelod-wladwriaethau yn y cyfnod yma'n atebol i gyfres o dri gwerthusiad - gwerthusiad *ex-ante*, gwerthusiad canol tymor, a gwerthusiad *ex-post.* Mae Ffigur 1.1. yn dangos sut yr oedd y rhain yn ymwneud â gweithrediad y rhaglen wirioneddol ac â'r rheiny yn y cyfnod dilynol (2014-20). Mae hefyd yn dangos y camau lle mae'r canlyniadau'n cael eu cyfosod ar lefel yr Undeb Ewropeaidd.




**Ffigur 1.1: Y cylch gwerthuso a pholisïau yn y Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin**

Mae hi werth nodi, ers i'r gyfres o Raglenni Datblygiad Gwledig gychwyn yn 2000, maent wedi rhedeg yn ddi-dor, heb i unrhyw gyfnodau o 'seibiant' gael eu clustnodi ar gyfer adlewyrchu a newid. Yn hytrach, mae'r gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiadau a wnaed o Raglen Datblygiad Gwledig un cyfnod wedi cael eu bwydo'n raddol i mewn i'r gwaith cynllunio ar gyfer y rhaglenni a ddaeth ar ei hôl ac yn y ffordd y cawsant eu gweithredu. Mae'r amseriad yma wedi golygu bod gwerthusiadau *ex-post* yn rhy hwyr i ddylanwadu ar gynllun cychwynnol y Rhaglenni Datblygiad Gwledig sy'n dilyn yn syth ar ôl yr un o dan werthusiad (daw'r dylanwad yn bennaf o werthusiadau canol tymor a gwerthusiadau cenedlaethol ar wahân o gynlluniau unigol y mae'r Awdurdodau Rheoli'n eu comisiynu). Fodd bynnag, gallai'r gwerthusiad *ex-post* helpu i siapio newidiadau dilynol mewn gweithgareddau sy'n parhau o un cyfnod i'r nesaf. Mae hi werth nodi hefyd bod y gwerthusiad canol tymor yn y cyfnod 2014-20 wedi ei ddisodli erbyn hyn gan ddau Adroddiad Gweithredu Blynyddol estynedig (ar gyfer 2017 a 2019) sydd wedi'u bwriadu i weithredu'r un pwrpas â gwerthusiad canol tymor, ond mewn ffordd fwy effeithlon. Yng nghyd-destun y pontio o'r Undeb Ewropeaidd, gellir disgwyl i'r gwerthusiadau helpu i siapio pa bolisi datblygiad gwledig bynnag a ddewisir i Gymru ar ôl 2020.

Mae gwerthusiad *ex-post* yn werthusiad crynodol sy'n digwydd pan fo'n bosibl asesu effeithiau a gwerth ychwanegol y cyllido ar gyfer y rhaglen. Mae hyn yn bwysig i ddangos cyflawniadau'r rhaglen, i gyfiawnhau cyllideb y rhaglen ac i wella tryloywder ac atebolrwydd polisi gwledig wedi ei seilio yn yr Undeb Ewropeaidd i randdeiliaid a thalwyr trethi. Mae'n bwysig hefyd i asesu a ddyluniwyd ac a weithredwyd y polisi'n briodol i ymdrin â'r anghenion mwyaf perthnasol yn y maes astudio; felly mae'r gwerthusiad yn erfyn dysgu polisi sy'n gallu helpu i wella cynllun, ansawdd a gweithrediad iteriadau polisïau'r dyfodol.

Mae ein gwerthusiad *ex-post* yn archwilio:

- faint mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio;
- effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y rhaglen;

- effaith gymdeithasol-economaidd y rhaglen;
- effaith y rhaglen ar flaenoriaethau'r Gymuned, yn cynnwys heriau newydd; a,
- thargedau'r rhaglen.

Mae hefyd:

- yn tynnu ar wersi sy'n ymwneud â pholisi datblygiad gwledig;
- yn pennu'r ffactorau a gyfrannodd at y llwyddiant neu'r gwersi a ddysgwyd yng ngweithrediad y rhaglen, yn cynnwys cynaliadwyedd yn y dyfodol; ac,
- yn pennu arferion gorau.

Mae'r Adroddiad Cryno yma wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n gosod y gwerthusiad *ex-post* o fewn cyd-destun gwerthuso mwy cyffredinol (y Bennod hon), mae'n disgrifio natur a chynnwys Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 (Pennod 2); y dyraniad ariannol i'w wahanol gydrannau (Pennod 3); mae'n amlinellu sail tystiolaeth a methodoleg y gwerthusiad *ex-post* (Pennod 4); mae'n disgrifio'r prif ganfyddiadau am yr hyn a gyflawnodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (Pennod 5); yn gwerthuso'r mecanweithiau darparu a ddefnyddiwyd (Pennod 6); yn ystyried perfformiad mecanweithiau a ariennir o dan y Cymorth Technegol (Pennod 7) ac yn dod â chasgliadau ac argymhellion cyffredinol at ei gilydd (Pennod 8).

Mae'r Adroddiad Technegol mwy manwl a hirach wedi'i strwythuro ychydig yn wahanol ac yn unol â'r arweiniad a roddir gan y Rhwydwaith Gwerthusiad Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad Gwledig. Darperir trawsgyfeirio rhwng yr Adroddiad Byr yma a'r Adroddiad Technegol i ddarllenwyr sydd eisiau rhagor o wybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â chyflawniadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig, ac mae'r rhain fel arfer wedi'u cynnwys mewn atebion i gwestiynau gwerthuso penodol yn yr Adroddiad Technegol.

## 2. Amcanion a strwythurau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (Y mesurau a'r cynlluniau a'u darpariaeth)

**Negeseuon allweddol**

- Cynlluniwyd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 i ymdrin â'r blaenoriaethau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun Canllawiau Strategol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer datblygiad gwledig a Chynllun Strategaeth Genedlaethol y Deyrnas Unedig.
- I wneud hyn, detholwyd Mesurau o dan Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1698/2005 a gafodd eu grwpio'n bedair Echel, a datblygwyd cynlluniau ar gyfer eu gweithredu yng Nghymru.
- Roedd y cynlluniau o dan Echel 1 (gallu cystadleuol) ac Echel 2 (yr amgylchedd a chefn gwlad) yn rhai i Gymru gyfan. Gweithredwyd Echelau 3 (ansawdd bywyd) a 4 (agwedd LEADER) ar lefel yr Awdurdod Unedol mewn 18 o ardaloedd.

Deilliodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 o bolisi'r Comisiwn Ewropeaidd ar Ddatblygiad Gwledig, y Canllawiau Strategol Cymunedol a Chynllun Strategol Cenedlaethol y DU. Roedd yr agenda strategol i Lywodraeth Cymru'n nodi saith maes oedd i gael blaenoriaeth lle'r oedd angen gweithredu ei weledigaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Gymru. Dyma nhw:

- Hybu economi amrywiol a chystadleuol gyda gwerth ychwanegol uchel, gyda sgiliau ac addysgu o ansawdd da, sy'n lleihau'r gofynion ar yr amgylchedd.
- Gweithredu ar gyfiawnder cymdeithasol sy'n ymdrin â thlodi ac iechyd gwael, ac sy'n rhoi'r gallu i bobl a'u cymunedau eu helpu eu hunain a dod allan o'r trap tlodi.
- Gweithredoedd yn ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig sy'n gwella balchder yn y gymuned, yn gofalu am adnoddau naturiol, yn cefnogi bioamrywiaeth, yn

hybu cyflogaeth leol, yn lleihau gwastraff ac yn gostwng effeithiau niweidiol cludiant ar yr amgylchedd.

- Cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog.
- Sicrhau bod ein plant i gyd, a chenedlaethau'r dyfodol, yn mwynhau gwell cyfleoedd mewn bywyd, ac nad ydym yn achosi problemau ac yn eu pasio i lawr atyn nhw.
- Cefnogi pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.
- Hybu ysbryd agored, partneriaeth a chyfranogaeth.

Yn ei dro, mynegodd y gwerthusiad *ex-ante* (Agra CEAS Consulting, 2006) y rhain fel materion niferus i dderbyn sylw gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, gan eu gosod mewn tri phrif grŵp: economaidd, cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol.

I ymdrin â'r meysydd blaenoriaeth yma a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn unol â chynnwys Rheoliad Datblygiad Gwledig yr UE (Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1698/2005), a sefydlodd yr amodau ar gyfer rhoi cefnogaeth o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), strwythurwyd y Rhaglen Datblygu Gwledig yn bedair Echel, a chan bob un nifer o Fesurau. Cafodd y mesurau a ganlyn eu defnyddio fel sail ar gyfer cynlluniau a weithredwyd yng Nghymru:

| **Echel** | ***Mesurau a fabwysiadwyd a'r cynllun a weithredwyd yng Nghymru*** |
|---|---|
| **Echel 1: gallu cystadleuol amaethyddiaeth a choedwigaeth** | • ***Mesur 111:*** Cyswllt Ffermio<br>• ***Mesur 114:*** Gwasanaeth Cynghori Ffermydd<br>• ***Mesur 121:*** Ffermio sy'n Sensitif i'r Dalgylch<br>• ***Mesur 123:*** Cynllun y Grant Prosesu a Marchnata<br>• ***Mesur 124:*** Cynllun Effeithiolrwydd y Gadwyn Gyflenwi<br>• **Mesur 132:** Cefnogi ffermwyr mewn cynlluniau ansawdd bwyd (rhan o'r Cynllun Ffermio Organig (OFS) |

| | |
|---|---|
| | a'r Cynllun Troi at Ffermio Organig (OFCS)) |
| **Echel 2: gwella'r amgylchedd a chefn gwlad** | • ***Mesur 212:*** Tir Mynydd (a ddisodlwyd gan Glastir yn 2012)<br>• ***Mesur 214:*** Tir Cynnal (a ddisodlwyd gan Glastir yn 2012)<br>• ***Mesur 214:*** Cynllun Ffermio Organig (a ddisodlwyd gan Glastir yn 2012)<br>• ***Mesurau 214 a 216:*** Tir Gofal (a ddisodlwyd gan Glastir yn 2012)<br>• ***Mesur 214:*** Glastir (a gymerodd le'r cynlluniau Echel 2 cyfredol yn 2012)<br>• ***Mesurau 221, 223, 225 a 227:*** Coetiroedd Gwell i Gymru (a ddisodlwyd gan Glastir yn 2012)<br>• ***Mesur 225:*** Taliadau Amgylchedd-fforest (a gyflwynwyd yn 2014) |
| **Echel 3: ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig** | • ***Mesur 311:*** Arallgyfeirio Ffermydd<br>• ***Mesur 312:*** Microfusnesau<br>• ***Mesur 313:*** Twristiaeth<br>• ***Mesur 321:*** Gwasanaethau Sylfaenol<br>• ***Mesur 322:*** Adnewyddu a Datblygu Pentrefi<br>• ***Mesur 323:*** Treftadaeth Wledig<br>• ***Mesur 331:*** Hyfforddiant<br>• ***Mesur 341:*** Strategaethau Datblygiad Lleol |
| **Echel 4: LEADER (agweddau lleol tuag at ddatblygiad gwledig)** | • ***Mesur 41:*** Agwedd LEADER – Strategaethau<br>• ***Mesur 421:*** Agwedd LEADER – Cydwethrediad<br>• ***Mesur 431:*** Agwedd LEADER – Animeiddiad |

Y grŵp targed ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig oedd y boblogaeth wledig, ffermwyr yn bennaf fel defnyddwyr tir amaethyddol a chynhyrchwyr cynradd. Yn y grŵp targed ffermio, pennwyd dau grŵp ar y lefel genedlaethol – ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid. Yn y boblogaeth wledig gyfan, roedd y grwpiau targed a benwyd yn benodol yn cynnwys merched, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau ethnig lleiafrifol a du, cymunedau sy'n siarad Cymraeg, pobl sydd wedi'u tangyflogi a mentrau micro a bach.

Cafodd Echel 1 ei gweithredu'n gyntaf gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys Mesur 111 (Cyswllt Ffermio) drwy amrywiol gontractau darparu gyda sefydliadau oedd yn cynnwys Lantra a Menter a Busnes. Yn ddiweddarach cafodd yr elfennau Cyswllt Ffermio eu grwpio'n bedwar Lot darparu, ac enillodd Menter a Busnes yr hawl i ddarparu tri ohonynt o fis Medi 2011 (gyda chyfraniadau gan asiantaethau darparu eraill).

Darparwyd Echel 2 gan Lywodraeth Cymru, ac eithrio'r cynlluniau Coedwigaeth, lle dirprwywyd y Comisiwn Coedwigaeth yn Gorff Cyfryngol (sef Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn). Lle bu'r Cyrff Cyfryngol yn prosesu taliadau, cafodd y rhain eu had-dalu'n ddiweddarach gan Lywodraeth Cymru.

Yn wahanol i agwedd Cymru gyfan Echelau 1 a 2, cafodd Echelau 3 a 4 eu darparu mewn ffordd ddatganoledig yn ardaloedd 18 o Awdurdodau Unedol Gwledig. Roedd gan bob un Bartneriaeth Leol dan arweiniad yr Awdurdod Unedol gyda'i Strategaeth Datblygiad Lleol ei hun a Grŵp Gweithredu Lleol Echel 4, oedd hefyd yn rhan o'r Partneriaethau ar y cyd ac yn gweithredu gweithgareddau Echel 4.

Clustnodwyd cyfran o'r adnoddau i ddarparu Cymorth Technegol i gefnogi ystod o weithgareddau oedd, ymysg pethau eraill, wedi eu llunio i helpu gyda gweithrediad, megis Cyfathrebu, Rhwydwaith Gwledig Cymru ac Arsyllfa Wledig Cymru.

# 3. Dyraniad ariannol a'i ddefnydd

**Negeseuon allweddol**

- Roedd Echel 2 (gwella'r amgylchedd a chefn gwlad) yn cyfrif am 66% o'r gwariant cyhoeddus cyfan o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, ac yn dilyn hynny ar lefel llawer is roedd Echel 1 (gallu cystadleuol) (15%) ac Echel 3 (ansawdd bywyd) (11%).
- Cafodd y dosbarthiad yma ei ddylanwadu'n drwm gan ofyniadau'r Rheoliad a gan ymrwymiadau ar wariant amaeth-amgylcheddol o'r Rhaglen Datblygu Gwledig blaenorol


O ganlyniad i amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid, a'r cymhlethdod y mae hyn yn ei ychwanegu wrth geisio cymharu data ariannol drwy gydol y cyfnod rhaglennu, mae'r adroddiad yma'n defnyddio Ewros, yn unol â'r wybodaeth fonitro ariannol a ddarparwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd gan Lywodraeth Cymru.

Y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Chwefror 2008 oedd €1,170 miliwn (£796 miliwn ar y gyfradd gyfnewid oedd ar waith ar y pryd). Roedd y gydran fwyaf a gynlluniwyd o'r Rhaglen Datblygu Gwledig, sef 34.6% o'r cyfanswm, yn daliadau amaeth-amgylcheddol (Mesur 214); cynlluniwyd bod Echel 2 cyfan yn cyfrif am dri chwarter y gwariant cyhoeddus. Roedd Echel 1 i gyfrif am 11.2% o'r cyfanswm, Echel 3 oddeutu 95% ac Echel 4 oddeutu 4.0%.

Dylid cydnabod nad Llywodraeth Cymru yn unig oedd wedi dewis y dyraniad yma. Yn gyntaf, gosododd y Rheoliad Datblygiad Lleol reolau penodol ynglŷn â'r pethau yr oedd yn rhaid gwario'r arian arno (megis y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol a LEADER) ac yn ail, roedd deddfau wedi eu pasio i lawr o'r Rhaglen Datblygu Gwledig blaenorol, yn arbennig y cytundebau amaeth-amgylcheddol a allai redeg am ddeng mlynedd. Yn ôl y gwerthusiad *ex-ante*, cafodd cyfran sylweddol o'r cyllido

sydd ar gael ar gyfer y cyfnod 2007-13 cyfan ei ragnodi o dan y Rheoliad neu roedd wedi ei glustnodi'n barod ar ddechrau'r Rhaglen Datblygu Gwledig, o dan gynlluniau Echel 2 gan fwyaf.

Cafodd y gyllideb wreiddiol ei haddasu yn hwyr yn 2009 yn dilyn newidiadau i Echelau 3 a 4 ac addasiadau a wnaed o dan Wiriad Iechyd CAP yn 2008; cafwyd addasiadau dilynol hefyd. Mae Ffigur 3.1 yn dangos bod Echel 2 yn y pen draw yn cyfrif am 66% o'r gwariant cyhoeddus cyfan o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, wedi'i ddilyn ar lefel lawer is gan Echel 1 (15%) ac Echel 3 (11%). Mae'r rhain, a'r meysydd eraill o wariant, yn agos at y dosbarthiad a ragwelwyd sydd wedi'i ddisgrifio uchod.




**Ffigur 3.1: Ariannau Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-13 (ôl-syllol)**


# 4. Methodoleg a sail tystiolaeth y gwerthusiad *ex-post*

**Negeseuon allweddol**

- Daeth y dystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad o ffynonellau cyfredol i raddau mawr (gwerthusiadau blaenorol, data monitro, Adroddiadau Gweithrediad Blynyddol, ac ati), ond cafodd ei hategu gyda gwybodaeth a gasglwyd mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth Cymru (a ymatebodd hefyd i arolwg ar-lein).
- Defnyddiwyd y dystiolaeth hon i adeiladu atebion i'r 128 o gwestiynau oedd yn ofynnol gan fframwaith cyffredin y Comisiwn Ewropeaidd.

Gwnaed y gwerthusiad *ex-post* yn unol â chylch gorchwyl a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a dilynodd y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Digwyddodd y gwerthusiad rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2016.

Mae'r *ex-post* yma'n werthusiad crynodol sy'n adeiladu'n bennaf ar ddeunydd sy'n bodoli'n barod (ffynonellau eilaidd) i ffurfio ei sail tystiolaeth. Gwelir y rhain yn Ffigur 4.1 fel gwerthusiadau blaenorol (yn cynnwys y gwerthusiadau *ex-ante* a chanol tymor ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13, a nifer o werthusiadau cenedlaethol o gynlluniau unigol a'r gwerthusiad parhaus ar wahân); ynghyd â'r amrywiol Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AIRs), yr oedd adroddiad 2015 y mwyaf defnyddiol ohonynt am ei fod yn cynnwys gwybodaeth derfynol ar gyfer cyfnod llawn y rhaglen. Cyfyngwyd y casglu data cychwynnol, a ddefnyddiwyd yn bennaf i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth, i arolwg ar-lein o randdeiliaid i gasglu eu hymateb i un neu ddau o faterion allweddol oedd angen sylw, a chyfres o drafodaethau manwl. Cynhaliwyd y rhain gyda swyddogion uwch o Lywodraeth Cymru oedd wedi gweithredu ar lefelau Rhaglen, Echel neu Fesur, ynghyd â rhai rhanddeiliaid. O ganlyniad, roedd y gwerthusiad *ex-post* yma'n ymarfer desg gan fwyaf.




**Ffigur 4.1: Adeiladu'r sail tystiolaeth**

Roedd y gwerthusiad yn dilyn nifer o brif gamau:

- ***Cam 1: Y cyfnod cychwynnol.*** Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ac, ar ôl hwn darparwyd llawer iawn o dystiolaeth oedd gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r gwerthusiad yma a chafodd hon ei chatalogio gan y contractwr. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys adroddiadau gwerthuso ac Adroddiadau Gweithredu Blynyddol, gyda'u data monitro cysylltiedig. Darparwyd manylion cysylltu allweddol. Darparodd y contractwr Adroddiad Cychwynnol oedd yn cynnwys map ar gyfer cwblhau'r gwerthusiad.

- ***Cam 2: Adolygiad desg*** o ddata monitro a gwybodaeth werthuso yn ymwneud â'r Rhaglen Datblygu Gwledig gyfan, cynlluniau unigol, ac o

wybodaeth reoli'r rhaglen. Mapiwyd y dystiolaeth yma ar y cwestiynau gwerthuso hysbys yr oedd yn rhaid eu hateb, a gwnaed dadansoddiad o fylchau i ganfod y meysydd hynny lle nad oedd data ar gael.

- ***Cam 3: Ymarfer casglu data cychwynnol*** drwy raglen gyfweld yn cynnwys swyddogion uwch Llywodraeth Cymru gyda throsolwg o'r Rhaglen Datblygu Gwledig ac Echel a rheolwyr cynllun. Gwnaethpwyd arolwg ar-lein o'r prif randdeiliaid i ganfod barn pobl am berfformiad y cynllun a'i effaith.

- ***Cam 4: Cyfosod ac adrodd*** yn dilyn gofynion y Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin (yr Adroddiad Technegol) ac Adroddiad Cryno byrrach i gwrdd â gofynion cenedlaethol. Mae'r Adroddiad Technegol yn cynnwys yr holl ddeunydd a bennwyd gan y Comisiwn ac roedd yn dilyn y strwythur a argymhellwyd yn nogfennau arweiniad y Comisiwn, yn cynnwys dilyn dull Pob-yn-Fesur. Ond, roedd yr Adroddiad Cryno cenedlaethol yma'n fwy rhydd i fabwysiadu strwythur oedd yn fwy addas i'r dadansoddiad thematig o berfformiad Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru a dull naratif.

Yn ganolog i'r Adroddiad Technegol mae atebion i'r holl gwestiynau penodol sy'n rhan o'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin. Roedd 128 i gyd:

- 14 Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin sy'n ymwneud â Rhaglenni (PCEQ)
- 10 gwahanol Gwestiwn Gwerthuso Cyffredin (CEQ), y mae'n rhaid ateb cyfuniadau o'r rhain ar gyfer pob Mesur ymhob Echel: 70 cwestiwn i gyd i Gymru;
- 22 Cwestiwn Gwerthuso sy'n Benodol i Raglen (PSEQ) yn ymwneud â'r pedair Echel; a,
- 22 Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin (PSEQ) yn ymwneud â mecanweithiau darparu themâu trawsbynciol, Cymorth Technegol, Rhwydwaith Gwledig Cymru a chyfathrebu.

Er ei fod yn gymhleth o hyd, mae hwn yn Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin wedi'i symleiddio, a newidiwyd ar ôl profiad y gwerthusiadau canol tymor ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Mewn egwyddor, gallai'r atebion dynnu ar ddangosyddion sydd wedi'u pennu yn y Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin ar gyfer pob Mesur, yn ymwneud â gwaelodlin, canlyniadau, deilliannau ac effeithiau, er, mewn gwirionedd, nid oedd perthynas glir bob amser rhwng y cwestiwn gwerthuso penodol a'r dangosydd(ion), ac yn aml iawn roedd bylchau oherwydd data coll, yn enwedig o ran yr effeithiau. Yn ogystal, mae'r Adroddiad Technegol yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth sy'n berthnasol i bob cwestiwn, wedi ei gymryd o amrywiol ffynonellau o dystiolaeth, er bod hyn yn fwy cyfoethog mewn rhai ardaloedd nag mewn eraill. Ar sail hynny, lluniwyd yr atebion gorau.

Mae perthynas amlwg rhwng yr Adroddiad Technegol a'r Adroddiad Cryno. Yn y deunydd sy'n dilyn, cyfeirir at adrannau penodol yn yr Adroddiad Technegol y gallai darllenwyr sydd angen rhagor o wybodaeth ymgynghori â nhw. Yn aml iawn, mae'r rhain ar ffurf atebion yn yr Adroddiad Technegol i gwestiynau gwerthuso cyffredin, cwestiynau gwerthuso cyffredin sy'n ymwneud â rhaglenni a chwestiynau gwerthuso cyffredin sy'n benodol i raglen.

# 5. Gwerthusiad o ganlyniad y Cynllun Datblygu Gwledig – Beth a gyflawnwyd gan y Cynllun?

**Negeseuon allweddol**

- Mae hi bron yn sicr bod gwelliannau mewn gallu cystadleuol yn y sectorau ffermio a choedwigaeth wedi eu darparu gan Fesurau a chynlluniau Echel 1, er bod y cyfraniadau'n amrywiol yn unol â'u cynllun a'u pwrpas. Weithiau roedd hi'n amhosibl cysylltu'r cyfraniad gan gynlluniau Echel 3 yn benodol â'r sectorau ffermio a choedwigaeth.
- Gwnaed cyfraniadau i dyfiant yr economi gwledig mewn nifer o wahanol ffyrdd - mwy o weithgaredd economaidd, mwy o swyddi, arloesedd, ac ati. Er bod hyn yn ystyrlon i'r buddiolwyr unigol, ar gyfer y sector amaeth a bwyd yn gyffredinol, roedd yr ychwanegiadau'n fach (tua 3%), ac yn llai os byddai'r holl economi gwledig i gael ei ystyried. Fodd bynnag, nid oedd y manteision hyn yn rhai dibwys.
- Gwnaethpwyd gwelliannau uniongyrchol i ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig, yn benodol o ran darparu gwasanaethau sylfaenol (gan gynnwys Band Eang), adnewyddu a datblygu pentrefi, cadw ac uwchraddio'r dreftadaeth wledig. Cafwyd effaith uniongyrchol o ganlyniad i ystod o Fesurau eraill. Darparodd Echel 2 welliant cyffredinol mewn ansawdd bywyd drwy ddarparu nwyddau cyhoeddus.
- Daeth gweithgareddau Echel 2 â chyfanswm o 552,030 hectar o dir dan reolaeth gyda'r bwriad o helpu i wella bioamrywiaeth ynghyd â 432,998 hectar i helpu i wella ansawdd dŵr. Cafodd ansawdd y dŵr ei wella diolch i'r cynllun Ffermio sy'n Sensitif i'r Dalgylch a chynllun Grant Effeithiolrwydd Glastir. Yn olaf, daeth 417,190 hectar o dan y cytundebau rheoli tir sy'n cyfrannu at liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Roedd hi'n bosibl y gallai'r gwaith o greu coetiroedd o dan gynllun Glastir ostwng faint o dir sy'n creu llifogydd yn y dyfodol. Roedd agweddau eraill, nad ydynt yn rhai Echel 2, o'r

Rhaglen Datblygu Gwledig yn cyfrannu at liniaru'r newid yn yr hinsawdd hefyd drwy gefnogi'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Rydym yn symud ymlaen o ddisgrifio strwythur Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru a'r adnoddau a ddefnyddiodd i ystyried yr hyn a gyflawnodd. Roedd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 yn gymhleth, ac iddo lawer o rannau a nifer o amcanion. Mae Adroddiad Technegol y gwerthusiad *ex-post* yma'n mabwysiadu strwythur systematig sydd wedi'i seilio ar Echelau a Mesurau oddi mewn iddynt a'r cynlluniau a ddefnyddiwyd i roi'r rhain ar waith yng Nghymru. Drwy wneud hynny, darperir atebion i'r cwestiynau niferus y mae'r Comisiwn eisiau atebion iddynt.

Fodd bynnag, yn ychwanegol at hynny, roedd hi'n ofynnol bod rhan o'r gwaith adrodd i Lywodraeth Cymru gan Agra CEAS Consulting ar ffurf dadansoddiad thematig cryno o effaith Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13, felly un cam pwysig oedd sefydlu'r prif themâu oedd i gael sylw yn yr Adroddiad Cryno yma. Yn anochel, mae hyn yn cynnwys elfen o feirniadaeth a'r posibilrwydd bod rhai themâu'n gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig yn adlewyrchu ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Bydd themâu yn rhyngweithio hefyd a gallai newidiadau amgylcheddol gael goblygiadau economaidd a *vice versa*. Pa grŵp bynnag o themâu a ddewisir, bydd perygl o or-symleiddio ac o hepgor pethau pwysig. Ond, mae agwedd thematig yn darparu ffordd ymarferol o ddisgrifio a deall prif gyflawniadau Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13. Yn unol â'r amcanion Echel, rydym yn ystyried effeithiau yn erbyn y themâu a ganlyn:

- Gwella gallu cystadleuol y sectorau amaethyddol a choedwigaeth
- Datblygu'r economi gwledig (y mae busnesau fferm yn rhan ohono)
- Ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig
- Yr amgylchedd naturiol

Mae'r cyfrifon a ganlyn yn hollol seiliedig ar yr hyn a geir yn yr Adroddiad Technegol.

### 5.1. Thema 1: Gwella mantais gystadleuol y sectorau amaethyddol a choedwigaeth

Mewn termau eang, gellir ystyried gallu cystadleuol y sector fel gallu'r cynhyrchwyr nwyddau amaethyddol (a choedwigaeth) i barhau i gynhyrchu o dan amodau cryfaf y farchnad ac ennill elw sy'n gymesur â'r risgiau perthnasol (hynny yw, ennill 'elw normal' yn yr ystyr economaidd). Mae ehangu hyn rywfaint i gynnwys byd dynamig lle mae newidiadau'n digwydd yn yr amgylcheddau ariannol, technegol, naturiol neu bolisïau yn awgrymu bod gallu cystadleuol hefyd yn gofyn bod cynhyrchwyr yn gallu ymdopi gyda rhywfaint o newidiadau fel yma ac addasu'n briodol.

Yn Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13, daeth y gefnogaeth i wella gallu cystadleuol amaethyddiaeth a choedwigaeth yn bennaf o'r cynlluniau a gynigiwyd o dan y Mesurau oedd yn ffurfio rhan o Echel 1. Dyma oedd prif nod Echel 1 a chafodd pob Mesur o dan yr Echel honno eu hasesu yn nhermau eu heffaith ar allu cystadleuol (gwelwch Gwestiwn Gwerthuso Cyffredin 15 yn yr Adroddiad Technegol ymhob Mesur o Echel 1 a'r crynodeb a ddarperir yn yr ymateb i Gwestiwn Gwerthuso Cyffredin yn ymwneud â Rhaglen 5). Mae hi'n bosibl hefyd y gallai rhai gweithgareddau o dan Echel 3 fod wedi effeithio ar allu cystadleuol, yn benodol Fesur 311 ar arallgyfeirio i weithgareddau nad ydynt yn amaethyddol a Mesur 313 ar annog gweithgareddau twristiaeth. Fodd bynnag, i fod yn berthnasol yn y fan yma, byddai angen i'r effaith fod ar y sectorau ffermio a choedwigaeth (a ystyrir yn gynhyrchwyr nwyddau amaethyddol a choedwigaeth yn hytrach na busnesau cyflawn). Yn gyffredinol, ni ddisgwylid i weithgareddau Echel 2 gael effaith bositif ar allu cystadleuol.

Aseswyd effaith gweithgareddau Echel 1 ar allu cystadleuol gan ddefnyddio nifer o fetrigau yn cynnwys cynyddiadau mewn trosiant ffermydd, gostyngiadau mewn costau a chynnydd mewn elw (a phroffidioldeb). Y newidiadau a gafwyd mewn cysylltiad â hyn oedd gwell effeithiolrwydd (a allai godi o newid mewn refeniw, costau

neu'r ddau), llafur mwy cynhyrchiol, cynhyrchion o well ansawdd a gwell arloesedd (marchnadoedd newydd, cynhyrchion newydd a/neu brosesau cynhyrchu newydd).

Cysyniad sydd â chysylltiad agos iawn at hynny yw hyfywedd, am fod angen i fusnesau fod yn gystadleuol er mwyn parhau o fewn y diwydiant yn y dyfodol, er bod hyfywedd fferm fel uned annibynnol yn gallu cael ei effeithio nid yn unig gan ei gweithgareddau amaethyddol, ond hefyd gan y ffyrdd eraill y mae'r gweithredwyr yn ymgysylltu â'r economi, megis gweithgareddau wedi'u harallgyfeirio ar y fferm ac oddi ar y fferm ac (yn gynyddol) swyddi a gymerir gan y ffermwr a'r teulu y tu allan i fusnes y fferm (eu "Gweithgareddau Eraill â Thâl") a phensiynau neu enillion o fuddsoddiadau. Mae'n bosibl y byddai fferm na fyddai fel arall yn gallu cystadlu'n llwyddiannus yn y farchnad yn gallu parhau i gynhyrchu nwyddau fferm os byddai busnes arall neu weithgareddau ennill incwm eraill yn bresennol. Mae elfen ddynamig mewn gallu cystadleuol, ac i barhau'n gystadleuol, mae'n rhaid i ffermwyr fod yn barod i addasu, a gallu addasu, i amodau newydd yn y farchnad, i dechnoleg newydd a/neu i bolisïau newydd.

Chwaraeodd Mesur 111 (Cyswllt Ffermio) rôl hanfodol mewn cynyddu ymwybyddiaeth pobl o'r angen i newid arferion busnes a newid ffactorau sy'n effeithio ar allu cystadleuol y rheiny a gymerodd ran. Diben y rhesymeg ymyrraeth a sefydlu Cyswllt Ffermio oedd dod â gwelliannau mewn gallu cystadleuol fel cydran allweddol o amcan canolog y cynllun, sef gwneud busnesau ffermio'n llwyddiannus a'u galluogi i addasu i heriau'r dyfodol. Mae'r dystiolaeth sy'n dod o'r arolwg yn awgrymu hyn: ***er bod nifer o gyfranogwyr Cyswllt Ffermio wedi dweud bod eu gallu cystadleuol wedi cynyddu, nid oedd y mwyafrif o gyfranogwyr wedi dweud hynny.*** Mae'r effaith anwastad yma'n waeth pan ystyrir i ba raddau yr oedd cyfranogaeth wedi cynhyrchu newid y tu hwnt i'r hyn y disgwylid ei weld pe na bai'r cyfranogwyr wedi ymwneud â'r cynllun (ychwanegolrwydd). ***Fodd bynnag, i'r rheiny a sylwodd ar welliannau yn eu gallu cystadleuol, gallai'r effaith fod yn sylweddol*** (mewn rhai achosion, yn fwy na 25% o gynnydd mewn proffidioldeb, ond

yn fwyaf cyffredin hyd at 5% o gynnydd). Mae hyn yn sicrhau bod ***effaith bositif wedi digwydd ar allu cystadleuol, a bod ffactorau'r gallu cystadleuol yn gyffredinol (h.y. yn cynnwys y rheiny a soniodd am effaith negyddol neu ddim effaith o gwbl) wedi eu cyfrif fel cynnydd o £424 mewn proffidioldeb i bob rhyngweithiad gyda Cyswllt Ffermio***. Wedi dweud hynny, efallai bod elfen o "duedd optimistiaeth" am fod y canfyddiad yma'n deillio o ganfyddiadau'r rheiny oedd wedi elwa; mewn dull lled-arbrofol oedd yn cymharu samplau o bobl a oedd wedi elwa a phobl nad oeddent wedi elwa, tueddwyd i weld ychydig yn llai o effaith.

Hefyd, yn Echel 1, darparodd Fesur 123 (y cynllun Grant Prosesu a Marchnata) gynnydd wedi'i amcangyfrif o £44.9 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA), ac mae rhagor o adrodd i ddigwydd eto, sy'n awgrymu'r gallu i ehangu mewn marchnad gystadleuol. Yn ogystal, derbyniodd dros 2,000 o bobl hyfforddiant yn y sectorau garddwriaethol a choedwigaeth, sy'n debygol o fod wedi caniatáu i o leiaf rai o'r buddiolwyr gymryd camau fyddai'n arwain at fwy o allu cystadleuol, er nad oes tystiolaeth uniongyrchol o hyn. Er bod y rhesymeg ymyrraeth ar gyfer Mesur 124 (cynllun Effeithiolrwydd y Gadwyn Gyflenwi) wedi pwyntio'n glir at welliannau mewn gallu cystadleuol o ganlyniad i gyfranogaeth, ychydig iawn o dystiolaeth oedd i'w chael mewn gwirionedd i ddangos yr effaith gan nad oedd pob un o'r gwerthusiadau prosiect unigol wedi ystyried y mater hwn. Lle rhoddwyd ystyriaeth i allu cystadleuol, dywedwyd bod yr effaith yn gymysg. Mae'n sialens hefyd i ganfod a mesur effaith y cynllun yma ar arloesedd o fewn fframwaith y Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin.

Nid oedd Mesurau 114 (y Gwasanaeth Cynghori Ffermydd) a 121 (Ffermio sy'n Sensitif i'r Dalgylch a Chynllun Grant Effeithiolrwydd Glastir) wedi eu llunio i ddarparu gwell effeithiolrwydd ac ychydig iawn o dystiolaeth gadarn sydd ar gael i awgrymu eu bod wedi cyflawni hynny. O ddweud hynny, fe ganolbwyntiodd cynlluniau Mesur 121 ar gynyddu effeithiolrwydd o ran defnyddio mewnbynnu ac mae hyn yn debygol o fod

wedi achosi rhywfaint o effaith bositif ar allu cystadleuol lle arweiniodd hynny at leihad mewn costau cynhyrchu.

Fel y nodwyd uchod, ni ddisgwyliwyd effaith bositif ar allu cystadleuol o dan Echel 2, er bod rhywfaint o dystiolaeth i ddangos y gallai gweithgareddau o dan Fesurau 221, 223 a 227 yn ymwneud â choetir, ddarparu rhywfaint o fanteision cystadleuol dros amser.

Yn Echel 3, o ganlyniad i weithgareddau o dan Fesur 311 (arallgyfeirio) adroddwyd am gynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros o oddeutu £4 miliwn drwy arallgyfeirio busnesau i feysydd sydd ddim yn amaethyddol, Mae hyn yn awgrymu bod cwmnïau fferm yn fwy galluog i gystadlu a goroesi yn economi'r farchnad. Gwelwyd gwelliannau yn y capasiti a'r seilwaith twristiaeth o ganlyniad i Fesur 313 (Twristiaeth), ond nid oedd hi'n bosibl mesur hyn yn nhermau gwell gallu cystadleuol.

Dylid nodi hefyd, yn y cyd-destun hwn, nad yw'n bosibl aseinio unrhyw effaith o arallgyfeirio a thwristiaeth yn benodol i allu cystadleuol y sectorau ffermio a choedwigaeth, fel y rhagwelwyd yn gonfensiynol, fel cynhyrchwyr nwyddau amaethyddol a choedwigaeth. Fodd bynnag, mae'r asesiad yma'n newid os bydd y syniad o fusnes fferm/coedwigaeth yn cael ei ehangu i gynnwys yr holl weithgareddau gyda thâl a wneir o fewn yr uned fusnes unigol.[1]

Felly, i grynhoi, cafodd Echel 1 ei llunio i ddod â gwelliannau mewn gallu cystadleuol i'r sectorau ffermio a choedwigaeth. Mae'n sicr ei bod wedi gwneud hynny, er bod gwahanol Fesurau (a gwahanol elfennau o'r cynlluniau) wedi gwneud cyfraniadau amrywiol yn unol â'u cynllun a'u pwrpas. Er bod tystiolaeth gref o effaith bositif (ond

[1] I fod yn fanwl gywir, o fewn cyfrifo cenedlaethol, efallai y dylid nodi bod sector yn gasgliad o unedau sefydliadol, megis busnesau heb eu hymgorffori a redir gan gartrefi neu'r rheiny a redir fel cwmnïau; byddai hyn yn awgrymu, i raddau mawr, yr holl weithgareddau a wneir gan unedau sydd ag amaethyddiaeth fel prif weithgaredd, neu fel un o'u gweithgareddau. Felly, yn dechnegol, mae defnyddio'r term 'sector' i awgrymu gweithrediadau amaethyddol yn unig, fel a wneir yn y Cyfrifon Economaidd i Amaethyddiaeth a'r Arolwg Busnes Fferm, yn camddefnyddio'r term.

cymedrol) o'r cynllun Grant Prosesu a Marchnata a Chyswllt Ffermio, nid oes digon o ddata i fesur yr effaith gan Fesurau eraill. Fel y disgwyl, roedd effaith Echelau 2 a 3 yn finimol ac, yn achos Echel 3, roedd hi weithiau'n amhosibl cysylltu'r effaith yn benodol â'r sectorau ffermio a choedwigaeth pan ddehonglir y term yma yn yr ystyr gul gonfensiynol. I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at PCEQ 5 yr Adroddiad Technegol.

**Blwch 5.1: Y diwydiant llaeth**

Gwelwyd bod diddordeb amlwg gan bobl yn y ffordd yr oedd Rhaglenni Datblygiad Gwledig yn helpu i ddod â newid i'r diwydiant llaeth ar lefel yr Undeb Ewropeaidd yng Ngwiriad Iechyd CAP 2008 ac roedd yn adlewyrchu pryder y gwneuthurwyr polisïau am y ffordd yr oedd y sector yma'n ymdopi ag amodau anodd y farchnad. Yn y cyfnod yr ymdrinnir ag o gan Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13, roedd y diwydiant llaeth yn peri pryder arbennig i Lywodraeth Cymru. Rhwng 2006 a 2013, gostyngodd y nifer o ddaliadau o 35% tra bo nifer y gwartheg llaeth wedi aros yn weddol debyg, cynyddodd maint y fuches o 52% a maint y daliad o 42%. Gadawodd 973 o ffermwyr llaeth y sector dros y cyfnod yma. Yn rhan o'r gwerthusiad *ex-post* yma, roedd hi'n ofynnol i'r gwerthuswyr archwilio i ba raddau yr oedd y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi hebrwng yr ailstrwythuro oedd ar waith.

Yn ystod y cyfnod addasu yma gwnaeth y sector llaeth yng Nghymru ddefnydd da o'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Yn Echel 1, o dan Fesur 111, teilwrodd Cyswllt Ffermio gyfres o becynnau i gefnogi busnesau llaeth. Cafodd dros dri chwarter ffermydd llaeth Cymru eu cefnogi drwy Cyswllt Ffermio (ac mae trefniadau wedi eu gwneud i sicrhau bod rhagor o gymorth ar gael ar gyfer y cyfnod rhaglennu 2014-20 i barhau'r gwaith yma). Gwnaeth y ffermwyr llaeth ddefnydd gweddol drwm o raglen Cyswllt Ffermio ac roeddent yn ddefnyddwyr mawr o wasanaethau ymgynghori a drefnwyd drwyddo. Dywedodd Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2012 bod Cyswllt Ffermio, er mwyn darparu mwy o gefnogaeth ar gyfer y sector llaeth, wedi cynyddu'r nifer uchaf o ddiwrnodau o fentora i wyth diwrnod i bob busnes, beth bynnag fo categori'r cyngor.

Darparwyd cymorth arall i'r sector llaeth drwy nifer o fesurau Rhaglenni Datblygu Gwledig eraill, er nad oedd hyn bob amser wedi'i dargedu'n glir ar y sector yma. I'w nodi'n arbennig, cafodd y Cynllun Ffermio sy'n Sensitif i'r Dalgylch o dan Fesur 121 ei ddefnyddio'n drwm gan y sector llaeth. Yn yr un modd, o dan Gynllun Grant Effeithiolrwydd Glastir, roedd galw mawr gan y sector llaeth i wella effeithiolrwydd ynni sy'n cael ei yrru gan ddibyniaeth y diwydiant ar ynni a'r angen i ganfod elfennau effeithlon er mwyn cynnal maint elw cynaliadwy. Cafodd y sector llaeth hefyd ei bennu'n

flaenoriaeth ar gyfer derbyn cefnogaeth o dan Fesur 123 (y cynllun Grant Prosesu a Marchnata). Roedd Cynllun Effeithiolrwydd y Gadwyn Gyflenwi'n cynnwys y prosiect 'Gwella Cadwyn Gyflenwi Llaethdy Cymru' ac o dan hwn derbyniodd Dairy Co gefnogaeth o £1 miliwn i gyd. Roedd gan y prosiect yma ffocws ar effeithiolrwydd busnesau fferm sy'n cynnwys y defnydd o ynni ar ffermydd a chyfleoedd i ffermwyr gydweithio, ynghyd ag iechyd y fuches a gallu cynhyrchiol y tir fferm.

Dylid nodi bod aildrefnu'r ddarpariaeth Cyswllt Ffermio a ddaeth yn weithredol ym mis Medi 2011 wedi disodli dull a oedd yn seiliedig ar sectorau, ac o dan hwn roedd rhaglen drosglwyddo gwybodaeth yn benodol i'r maes llaeth, gydag un wedi ei seilio ar ranbarthau (Agra CEAS Consulting, 2016). Fodd bynnag, ni effeithiodd hyn ar y gefnogaeth a gynigiwyd i'r sector llaeth, dim ond y ffordd y cafodd ei darparu.

I grynhoi, mae'r sector llaeth yn rhan bwysig o'r economi amaethyddol yng Nghymru, yn enwedig mewn rhanbarthau penodol, a darparodd Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-13 ddull ychwanegol o gefnogi'r sector. Cafwyd cymysgedd o dargedu pwrpasol a myfyrio syml ar bwysigrwydd y sector yma o fewn yr economi amaethyddol. I gael rhagor o fanylion gwelwch yr ateb i PCEQ 6 yn yr Adroddiad Technegol.

## 5.2. Thema 2: Datblygu'r economi gwledig (y mae busnesau fferm yn rhan ohono)

### 5.2.1. Gweithgaredd economaidd a chynhyrchiant llafur

Rhagwelwyd y byddai datblygiad yn cael ei adlewyrchu mewn lefel gynyddol o weithgareddau economaidd ac mewn cynhyrchiant llafur ar lefel yr economi gwledig cyfan. Mae data monitro'n dangos mai'r cynnydd cyfan mewn Gwerth Ychwanegol Gros o ganlyniad i'r gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig oedd €48.3 miliwn (nid oes data ar gael am y gwerth ychwanegol net). Mae'r ffigwr yma wedi ei bennu o gyfraniadau gan Echel 1 (Mesurau 123: Grant Prosesu a Marchnata a 124: Cynllun Effeithiolrwydd y Gadwyn Gyflenwi) ac Echel 3 (Mesurau 311: Arallgyfeirio Ffermydd; 312 Microfusnesau; a 313: Twristiaeth).

Roedd cyfrifiad ar wahân o effaith economaidd (proffidioldeb ychwanegol, yn hytrach na Gwerth Ychwanegol Gros) Cyswllt Ffermio (Mesur 111 a Mesur 114) yn

amcangyfrif mai £11.7 miliwn ydoedd (o fewn yr ystod a ddarparwyd gan werthusiadau o rannau cydrannol Cyswllt Ffermio cyn i'r ddarpariaeth gael ei symleiddio). Gwelwyd bod cytundebau Echel 2 wedi cynyddu Gwerth Ychwanegol Gros ar ffermydd o 24%.[2]

I roi'r cynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros yn ei gyd-destun, roedd y Gwerth Ychwanegol Gros ar gyfer y sector cychwynnol yn unig yn amrywio rhwng €209.4 miliwn a €453.8 miliwn dros y cyfnod 2007 hyd 2014. Felly, roedd y cynnydd cyfan mewn Gwerth Ychwanegol Gros o ganlyniad i weithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig (heb gynnwys y ffigwr ar wahân ar gyfer Mesur 111) rhwng 11% a 23% o'r Gwerth Ychwanegol Gros yn y sector cynradd. Ond, gan fod y mathau o gymorth a gynigiwyd o dan Raglen Datblygu Gwledig Cymru wedi mynd y tu hwnt i ffermio a choedwigaeth, ac yn cynnwys gweithgareddau arallgyfeirio ac, yn arbennig, elfennau o brosesu bwyd a marchnata, mae angen edrych arno'n ehangach. Mae'r gyfran a gynrychiolir gan y cynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros wedi'i ostwng i rhwng 2% a 3 % o Werth Ychwanegol Gros os cymerir y sector cynradd a'r diwydiant bwyd gyda'i gilydd. Nid oes data ar gael sy'n cynnwys y sector nad yw'n amaethyddol o'r economi gwledig yn y dadansoddiad yma, felly ni ellir cyfrifo effaith gyffredinol y Rhaglen Datblygu Gwledig mewn perthynas â'r cyfanswm, ond byddai'r cyfraniad yn gostwng ymhellach os gellid gwneud y cyfrifiad yma.

Yn gyffredinol, nid oedd modd cyfrifo'r newid mewn ***cynhyrchiant llafur*** (Gwerth Ychwanegol Gros i bob un Cyfwerth ag Amser Llawn) y gellid ei ystyried yn ganlyniad i'r Rhaglen Datblygu Gwledig am nad oes data ar gael a byddai'n annoeth cyffredinoli gan ddefnyddio'r ychydig bwyntiau data prin sydd ar gael. Nid oes tystiolaeth gadarn i awgrymu y byddai dadansoddiad o'r dangosydd yma'n newid yr argraff hon nad yw'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi chwarae rhan fawr mewn dod â newidiadau i'r economi cyfan.

[2] Roedd y cyfrifiad GVA wedi'i seilio ar sampl bychan iawn oherwydd y nifer cyfyngedig o ymatebwyr oedd wedi gallu darparu data defnyddiadwy ac felly dylid ei ddehongli gyda gofal.

I grynhoi, mae tystiolaeth i ddangos bod y gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi dod â chynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros i fuddiolwyr. Ond, pan roddir hyn yng nghyd-destun yr economi gwledig cyfan, mae'r tyfiant yma'n weddol fach. Nid yw hyn yn syndod o ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r ffaith bod y mwyafrif o'r adnoddau yma wedi eu gwario ar Fesurau Echel 2 nad oedd disgwyl iddynt gael effaith economaidd. Mae rhagor o fanylion yn yr ateb i PCEQ 1 yn yr Adroddiad Technegol.

### 5.2.2. Creu cyflogaeth (wedi'i fesur mewn swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn ychwanegol net)

Yn ddelfrydol, yr hyn sydd ei angen yw manylion faint yn ychwanegol o gyflogaeth y gellir dweud ei fod wedi ei greu i gyd oherwydd y gweithgareddau hynny a wnaed yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13. Ni fyddai hyn yn cynnwys unrhyw ostyngiadau a achoswyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, a byddai'n cymryd i ystyriaeth y newidiadau sy'n codi o achosion eraill. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer gwneud y cyfrifiad yma. Fodd bynnag, mae sail ddigonol i gasglu bod Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru wedi cael effaith ystyrlon ar gyflogaeth.

Mae'r dystiolaeth ar gyfer y math o greu swyddi y sonnir amdanynt, yn dod o amrywiol ffynonellau, yn bennaf arolygon buddiolwyr a data a gasglwyd drwy fonitro cynlluniau. O dan Echel 1, dywedodd oddeutu 13% o'r cyfranogwyr a arolygwyd ym Mesur 114 (Gwasanaeth Cynghori Ffermydd) eu bod wedi creu swyddi ac wedi cysylltu hyn, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, â gweithgareddau oedd wedi eu cefnogi (yn wahanol i ddata monitro, gellir ystyried y swyddi yma'n rhai net).

Soniodd arolwg o fuddiolwyr o dan Fesur 124 (Cynllun y Grant Prosesu a Marchnata) am greu 335 o swyddi ac mae data monitro yn Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2015 yn ychwanegu bod 1,138 o swyddi wedi eu creu o ganlyniad i weithredu o dan yr elfen Grant Prosesu a Marchnata Trosglwyddo Gwybodaeth yn y Mesur yma. Er nad yw hi'n bosibl bod yn hollol siŵr a ddylid ystyried y 335 o swyddi'n ychwanegol at

y 1,138, mae'n debygol y dylid gwneud am nad oedd yr arolwg yn ymwneud â buddiolwyr yr elfen Trosglwyddo Gwybodaeth. Wedi dweud hynny, dylid bod yn ofalus ynglŷn â gogwydd optimistiaeth mewn data am greu swyddi sydd i'w cael o arolygon hunan-adrodd, ac nid yw'n amlwg sut yr aseiniwyd yr achosiaeth mewn perthynas â'r data monitro.

Crëwyd swyddi mewn nifer o brosiectau o dan Fesur 124 (Cynllun Effeithiolrwydd y Gadwyn Gyflenwi). Soniodd y prosiect Gwerth Ychwanegol Bwyd Cymru am oddeutu 37, er nad o anghenraid o ganlyniad i gydweithredu neu arloesi, a nododd Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2015 greadiaeth dwy swydd (ran amser) o dan y prosiect Marchnata Da Byw a 98 o dan y prosiect Cywain. Er nad yw cynaliadwyaeth y swyddi yma a'r union rôl a chwaraeodd y gefnogaeth yn eu creadigaeth yn glir, mae'n bosibl dod i'r casgliad bod creu cyflogaeth yn ganlyniad i'r Mesur yma.

I Echel 1 gyfan, mae tystiolaeth o greu o leiaf 1,600 o swyddi. Er nad oedd y rhain i gyd wedi eu hachosi'n gyfan gwbl gan y gweithgareddau a wnaethpwyd, gellir ystyried bod y ffigwr yma'n agosach at fod yn net na'n gros oherwydd y cwestiynau a ofynwyd yn y fethodoleg arolwg a ddefnyddiwyd.

Mae'r darlun o dan Echel 2 yn gymysg, gyda'r gwerthusiad canol tymor yn sôn am greu 81 swydd cyfwerth ag amser llawn o dan Fesurau 221, 223 a 227 (cynlluniau ar gyfer coetir), soniodd y gwerthusiadau cynllun am greu 0.04-0.19 swydd Cyfwerth ag Amser Llawn o dan y cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru, a 46 swydd Cyfwerth ag Amser Llawn o dan Glastir. Ar y llaw arall, soniodd y gwerthusiad canol tymor am golli 450 o swyddi rhwng 2006 a 2010, o edrych ar holl fuddiolwyr y cynllun a ddaeth cyn Glastir. Felly, mae'n ymddangos mai'r sefyllfa net o dan Echel 2 fyddai colled net o oddeutu 32 swydd.

O dan Echelau 3 a 4, mae data monitro'n dangos bod 1,776 o swyddi gros Cyfwerth ag Amser Llawn wedi eu creu gan y Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-1 gyda

chyfraniadau o Fesurau 311 (Arallgyfeirio ffermydd), 312 (Microfusnesau), 313 (Twristiaeth), a 41 (agwedd LEADER – Strategaethau) a 421 (agwedd LEADER – Cydweithrediad).

Dylid edrych ar y swyddi a grëwyd yn erbyn y lefelau cyflogaeth presennol. Mae'r data gwaelodlin yn dangos nad bychan oedd y swyddi a grëwyd o ganlyniad i'r gweithgareddau. Mae'r oddeutu 1,300 o swyddi net a grëwyd o dan Echel 1 ac Echel 2, y gellir cymryd eu bod yn y sectorau cynradd a diwydiant bwyd, yn cyfrif am oddeutu 3% o'r gyflogaeth gyfan yn y sectorau hyn (roedd amrywiadau blynyddol). Nid yw'n bosibl rhoi'r swyddi a grëwyd o dan Echelau 3 a 4 yn eu cyd-destun am fod y rhain yn debygol o fod mewn sector nad yw'n amaethyddol nad oes data gwaelodlin ar ei gyfer.

I grynhoi felly, arweiniodd y gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig at greu oddeutu 3,000 o swyddi, y gellir ystyried oddeutu eu hanner yn rhai cynaliadwy sy'n codi'n uniongyrchol o'r gweithgareddau a gefnogwyd. Fodd bynnag, mae'n amhosibl dod i'r casgliad bod y swyddi yma i gyd wedi eu creu yn gyfan gwbl gan y gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig neu na fyddent wedi cael eu creu heb y gefnogaeth. Fodd bynnag, fe grëwyd maint sylweddol o gyflogaeth yn y sector cynradd a'r sector prosesu bwyd ac mae'n gyfatebol ag oddeutu 3% o'r gyflogaeth gyfan yn y sectorau hyn. Mae rhagor o fanylion yn yr ateb i PCEQ 2 yn yr Adroddiad Technegol.

### 5.2.3. Arloesedd (cynhyrchion newydd, marchnadoedd newydd, technegau newydd)

Wrth ystyried sut mae arloesedd yn effeithio ar ddatblygiad yr economi gwledig, mae'n bwysig deall sut y defnyddir y term "agweddau arloesol". Rydym yn deall ei fod yn golygu agweddau, a allai fod yn dechnegau, cynhyrchion neu farchnadoedd, sy'n newydd i'r buddiolwyr yn hytrach nag agweddau, yn fwy cul, sy'n hollol newydd i'r sector cyfan. Fodd bynnag, byddai awgrymu'n syml bod gwneud gwasanaethau neu adnoddau newydd ar gael i'r boblogaeth wledig (fel sy'n digwydd o dan Fesurau 321

(Gwasanaethau Sylfaenol) a 323 (Treftadaeth Wledig)) yn ymestyn y diffiniad yn rhy bell (ystyrir y rhain o dan 'ansawdd bywyd' isod).

Gellir cael arloesedd o fewn amaethyddiaeth ac mewn rhannau eraill o'r economi gwledig. Mae data monitro'n bodoli am gyflwyniad cynhyrchion a/neu dechnegau newydd ac am fynediad i farchnadoedd newydd, sy'n dangos cyfanswm cyfunedig o 2,244 o gynhyrchion a/neu dechnegau newydd a mynediad i 1,057 o farchnadoedd newydd. Gyda'i gilydd, roedd cyflwyno cynhyrchion newydd a/neu brosesau newydd yn uwch na'r targedau - lle'r oedd targedau wedi eu gosod. Yn ychwanegol at y niferoedd yma, roedd tystiolaeth ansoddol yn dangos i ba raddau y cyfranodd y Rhaglen Datblygu Gwledig at gyflwyno agweddau arloesol. Er nad oes tystiolaeth benodol am arloesedd o ganlyniad i Fesur 111 (Cyswllt Ffermio), trwy ddiffiniad, byddai dysgu sgiliau ac arferion newydd wedi arwain yn anochel at gyflwyno prosesau newydd (yn newydd ar lefel y fferm). Arweiniodd dros hanner (59%) y rhyngweithio gyda digwyddiadau/gweithgareddau Cyswllt Ffermio at newidiadau yn y ffordd yr oedd busnesau fferm yn cael eu rhedeg. Er nad yw hyn yn gyfatebol gydag arloesedd ar lefel y sector, mae'n debygol bod rhywfaint o'r rhyngweithio yma wedi peri defnyddio prosesau nad oeddent yn cael eu defnyddio o'r blaen ar ffermydd Cymru.

Yn ogystal ag agweddau arloesol a fabwysiadwyd gan fuddiolwyr, gellir ystyried arloesiad hefyd yng nghyd-destun gweithrediad, h.y. ffyrdd newydd o ddarparu agweddau o'r Rhaglen Datblygu Gwledig neu ffyrdd newydd o drefnu buddiolwyr (gwelwch Flwch 5.2).

**Blwch 5.2: Arloesedd wrth weinyddu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13**

Agweddau arloesol Glastir, a gydnabuwyd gan archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru a gan academyddion oedd yn ysgrifennu mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid, oedd targedu gofodol mesurau ymyrraeth a defnyddio'r Dull Gwasanaethau Ecosystem. Datblygwyd y model Dangosydd Gallu a Defnydd Tir (LUCI) a ddefnyddiwyd i hwyluso targedu gan ymchwilwyr oedd yn cydweithio mewn nifer o sefydliadau ac mae'n estyniad ail genhedlaeth o'r fframwaith Polyscape (i

gael y manylion a'r cyfeiriadau gwelwch yr ateb i PCEQ10 yn yr Adroddiad Technegol). Mae'r model yn mapio gwasanaethau ecosystem penodol ar wahanol raddau, yn asesu effaith debygol amrywiol opsiynau rheoli ar gyflenwad y gwasanaethau ac yn pennu lleoliadau gofodol optimaidd i ymyrriadau safle, gan adlewyrchu hefyd gyfnewidiadau posibl gyda gwasanaethau ecosystem eraill. Yna gellir rhoi sgôr i bob eiddo fferm yn erbyn pob un o amcanion blaenoriaeth Glastir, ac o'r sgôr yma gellir canfod a yw opsiwn penodol yn addas. Yn ogystal â'r elfen dargedu ofodol, mae'r defnydd clir o'r fframwaith gwasanaethau ecosystem yn arloesol hefyd a gallai ganiatáu mwy o aliniad rhwng cynlluniau amaeth-amgylcheddol cyhoeddus a chynlluniau "Taliadau am Wasanaethau Ecosystem" preifat.

Roedd archwilwyr Llywodraeth Cymru'n cydnabod hefyd gyflwyniad elfen Tiroedd Comin fel arloesiad positif yn Glastir. Ar amser eu hadroddiad (2014), roedd y gwelliannau a gyflwynwyd wedi golygu bod cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ymdrin â llawer mwy o'r tiroedd comin (roedd 147 o gytundebau Cyffredin Glastir ar waith ym mis Mai 2013, ar gyfer 48% o dir comin Cymru, o'i gymharu gyda dim ond 2% o dan Tir Gofal). Mae'n ymddangos bod cyflwyno Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin yn arloesiad arbennig o lwyddiannus. Roeddent o gymorth i herio camwybodaeth a chamddealltwriaeth mewn perthynas â Glastir Uwch am eu gallu i fynd i mewn i gytundebau rheoli ar y cyd, a allai fod wedi cyfrannu at y gwelliant dramatig yma. Mae'r ateb i PCEQ 10 yn yr Adroddiad Technegol yn cynnwys cyfrif mwy cyflawn.

I grynhoi, mae tystiolaeth feintiol bod agweddau o Echelau 1 a 3 wedi achosi arloesi o ran cyflwyno cynhyrchion a/neu dechnegau newydd (2.244) ac o ran mynd i mewn i farchnadoedd newydd (1,057). Mae tystiolaeth hefyd bod Cyswllt Ffermio'n darparu'r sgiliau newydd/newid yn dilyn dros hanner (59%) y rhyngweithiau ac mae'n debygol y byddai rhywfaint o'r newid yma wedi bod yn arloesol yn yr ystyr bod y dull a ddefnyddwyd yn newydd i'r buddiolwr. Hefyd, defnyddiodd y Rhaglen Datblygu Gwledig agweddau arloesol o dan Echel 2.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â sut y cyfrannodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru at agweddau arloesol yn yr ateb i PCEQ 10 yr Adroddiad Technegol.

### 5.3. Thema 3: Ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig

Mae ansawdd bywyd yn gysyniad cymhleth ac iddo nifer o wahanol ddimensiynau.[3] Mae'r dimensiwn ***cymdeithasol-ddiwylliannol a gwasanaethau*** o ansawdd bywyd yn edrych ar bwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol a chyfalaf gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys agweddau mwy meddal, megis bywyd cymunedol, traddodiadau, seilwaith cymdeithasol a chydlyniad (yn cynnwys yr iaith Gymraeg) a ffactorau materol megis adeiladau neu seilwaith arall ar gyfer adnewyddu pentrefi. Mae dimensiwn ***amgylcheddol*** ansawdd bywyd yn canolbwyntio ar les dynol sy'n gwella drwy gadwraeth ac uwchraddio'r amgylchedd a threftadaeth wledig. Mae dimensiwn ***economaidd*** ansawdd bywyd yn cynnwys digonolrwydd a diogelwch incwm i gwrdd ag anghenion sylfaenol ac argaeledd hawliadau megis mynediad i addysg, hunan-benderfyniad a democratiaeth. Yng nghyd-destun y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae'r dimensiwn economaidd yn cynnwys twristiaeth, crefftau a darparu amwynderau gwledig, cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio ar y fferm a datblygu micro-fusnesau yn yr economi gwledig ehangach.

Yn ogystal â'r tri dimensiwn yma, mae ansawdd bywyd hefyd yn cynnwys 'y gallu i fyw', 'bywoliaethau' a 'llywodraethu'. Mae'r gallu i fyw yn cynnwys y gwasanaethau, yr ansawdd amgylcheddol a'r rhwydweithiau cymdeithasol sy'n gwneud ardaloedd gwledig yn fannau lle mae pobl eisiau byw. Mae bywoliaethau'n cynnwys sut mae pobl yn gwneud bywoliaeth ac arallgyfeirio. Yn Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-13, roedd gan LEADER rôl bwysig yn y flaenoriaeth lorweddol o wella llywodraethu a symud y potensial i ddatblygu mewn ardaloedd gwledig.

Cyfrannodd amrywiol elfennau o'r Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-13 at wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig naill ai'n uniongyrchol, lle mae'n amcan amlwg o Fesur, neu'n anuniongyrchol drwy gyflawni amcanion cymdeithasol-

---

[3] Comisiwn Ewropeaidd (2010) Capturing Impacts of LEADER and of Measures to Improve Quality of Life in Rural Areas. Mae'r papur gwaith yma wedi ei seilio ar ganfyddiadau Gweithgor Thematig a sefydlwyd ac a gydlynwyd gan y Rhwydwaith Gwerthuso Ewropeaidd dros Ddatblygiad Gwledig. Gorffennaf 2010.

economaidd, amgylcheddol neu economaidd. Cafodd Mesurau Echel 3 a 4 eu targedu amlycaf ar y dimensiwn gwasanaethau a chymdeithasol-ddiwylliannol. Darparodd Fesurau Echel 2 well ansawdd bywyd drwy ddarparu nwyddau cyhoeddus sydd â gwerth amwynder a gwerth bodolaeth. Arweiniodd elfennau o Echel 1 at effeithiau economaidd sy'n berthnasol yma megis cyngor am arallgyfeirio a darparu hyfforddiant o dan Fesur 111 a chefnogaeth i ddatblygu busnes o dan Fesurau 123 a 124. Ymdrinnir â'r tri phwnc yn eu tro isod.

- ***Cymdeithasol-ddiwylliannol a gwasanaethau.***
  Roedd tri Mesur o dan Echel 3 yn ymwneud yn uniongyrchol â gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig (Mesur 321: gwasanaethau sylfaenol i'r economi a'r boblogaeth wledig (yn cynnwys y Cynllun Cymorth Band Eang); Mesur 322: adnewyddu a datblygu pentrefi; a, Mesur 323: cadw ac uwchraddio'r dreftadaeth wledig). Defnyddiwyd Echel 4 hefyd i ddarparu yn erbyn y themâu yma.

Canfu gwerthusiad o Echelau 3 a 4 bod 91% o'r buddiolwyr a arolygwyd (142/156) yn meddwl bod y gymuned a'r ardal leol wedi elwa o ganlyniad i'r gweithgareddau a wnaethpwyd. Yn nhermau'r buddion penodol a ddarparwyd, nodwyd cyflwyno adnoddau gwell neu newydd gan 22% o'r ymatebwyr, dod â'r gymuned at ei gilydd gan 20% a mwy o ddefnydd o'r adnoddau presennol gan 13%. Gofynnwyd i reolwyr prosiect roi sgôr i gyfres o fuddion a allai fod wedi eu cynhyrchu gan eu prosiectau. Rhoddwyd y sgôr uchaf i gyfranogaeth uwch yn y gymuned leol/mewn gweithgareddau gwirfoddol, ac yn dilyn hynny welliannau yn ansawdd yr amwynderau a gwasanaethau lleol a'r mynediad iddynt, a oedd ychydig bach o flaen y cynnydd yn y nifer o bobl oedd yn defnyddio gwasanaethau ac amwynderau lleol.

Darparwyd gwell gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig sydd ar gael i'w defnyddio gan y 2.9 miliwn o bobl sy'n byw yn ardaloedd cefn gwlad Cymru. Ond, mewn gwirionedd mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yma

go iawn yn amrywiol, ac yn llawer is. Er enghraifft, defnyddiodd 67,214 o unigolion wasanaethau a chyfleusterau yng Nghastell Nedd Port Talbot, ond dim ond 741 o unigolion a ddefnyddiodd wasanaethau a chyfleusterau ym Mro Morgannwg. Defnyddiwyd gwell gwasanaeth bysiau Dydd Sul yng nghefn gwlad Abertawe gan 2,579 o deithwyr rhwng 17 Gorffennaf 2011 a 2 Hydref 2011, sef cyfartaledd o 198 bob Dydd Sul. Cofnodwyd cyfanswm o 5,649 o deithiau i deithwyr rhwng mis Rhagfyr 2012 a diwedd 2014 ar ddau wasanaeth deialu-i deithio newydd yn Sir Benfro.

Darparodd y Cynllun Cymorth Band Eang osodiadau llwyddiannus i 2,733 o drigolion gan wella seilwaith cymdeithasol a chyfrannu at gydlyniad. Llwyddodd y gefnogaeth yma hefyd i wella 'gallu i fyw' a 'bywoliaethau' drwy ostwng rhai o anfanteision posibl byw a gweithio mewn ardaloedd gwledig.

Gyda'i ffocws ar ddarparu hyfforddiant a sgiliau newydd, darparodd Fesur 111 (Cyswllt Ffermio) welliannau yn ansawdd bywyd y buddiolwyr, yn ogystal â buddion drwy greu a chynnal swyddi. Mae rhyw 59% o fuddiolwyr wedi dysgu sgil newydd neu wedi gwneud newid i arferion ffermio o ganlyniad i ryngweithio gyda Cyswllt Ffermio; mae'n debyg bod rhyw gyfran o'r sgiliau a/neu'r newidiadau yma wedi dod â gwelliant i ansawdd bywyd, er nad yw'n bosibl mesur y gwelliant. Mae Mesur 111 wedi peri cynyddiadau hefyd mewn cyfalaf cymdeithasol.

- ***Amgylcheddol.*** Mae Mesurau Echel 2 wedi cael effaith amlwg yn nhermau gwella'r amgylchedd (gweler adran 5.4 isod) a bydd hyn wedi cael effeithiau positif ar ansawdd bywyd drwy werth bodolaeth a gwerth amwynder. Roedd rhywfaint o fuddion uniongyrchol i ansawdd bywyd yn bosibl hefyd. Er enghraifft, roedd 'lles' yn gymhelliant i rai o fuddiolwyr Coetir Glastir blannu coedwig.

- ***Economaidd.*** Roedd Echel 3 yn cynnwys rhai Mesurau oedd wedi eu llunio i effeithio ar ansawdd bywyd drwy welliannau yn y sefyllfa economaidd. Roedd Mesur 3: Arallgyfeirio i weithgareddau nad ydynt yn rhai amaethyddol yn cynnig cyllido grant a chafodd hyn ei gyflenwi gan weithgareddau o dan Echel 1, yn benodol Fesur 111 (Cyswllt Ffermio) yn cynnwys Agrisgôp, Cynlluniau Fferm Cyflawn ac, yn fwy cyffredinol, ddigwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth oedd yn darparu cyngor am arallgyfeirio i deuluoedd sy'n ffermio. Mae canlyniadau Mesur 311 yn cynnwys creu 127 o swyddi yr adroddwyd amdanynt a diogelu 192 o swyddi pellach; creu 196 o gynhyrchion neu wasanaethau newydd nad ydynt yn amaethyddol a mynd i mewn i 77 o farchnadoedd newydd.

  Bu Mesur 312 (cefnogaeth i greu a datblygu busnes) yn helpu i gynyddu llwyddiant busnesau a chreu micro-fusnesau newydd a fydd wedi gwella ansawdd bywyd buddiolwyr, gweithwyr cyflogedig a'u teuluoedd drwy well sicrwydd economaidd. Ond nid yw'n bosibl mesur gwelliant yn yr ansawdd bywyd a ddarperir. Bydd Mesur 313 (annog gweithgareddau twristiaeth) hefyd wedi cael effaith bositif anuniongyrchol ar ansawdd bywyd y buddiolwyr drwy well hyfywedd busnes ac efallai yn ehangach ar y boblogaeth leol drwy ddarparu gweithgareddau twristiaeth newydd neu well; mae'n debyg hefyd y bu effeithiau ail drefnu positif drwy fwy o wariant ar dwristiaeth mewn ardaloedd lleol, ond unwaith eto, ni ellir mesur y rhain.

  Bydd Mesurau eraill a ddarparodd fanteision economaidd cyffredinol megis creu neu ddiogelu swyddi (yn bennaf Fesurau Echel 1) wedi effeithio'n bositif hefyd ar ansawdd bywyd.

Dimensiwn pellach o ansawdd bywyd yw llywodraethu. Chwaraeodd LEADER ran bwysig mewn gwella llywodraethu lleol drwy annog a ffurfioli democratiaeth leol gyfranogol yn ogystal â pherchnogaeth ac ymgysylltiad cymunedol; mae'r buddion

yma'n debygol o barhau dros amser. Ond, roedd yr effaith yma'n amrywio rhwng ardaloedd oherwydd y dull darparu a ddefnyddiwyd.

I grynhoi, gwnaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig gyfraniad uniongyrchol i wella ansawdd bywyd mewn nifer o ddimensiynau, yn benodol o dan Fesur 321 (gwasanaethau sylfaenol i'r economi a'r boblogaeth wledig, yn cynnwys y Cynllun Cymorth Band Eang); Mesur 322 (adnewyddu a datblygu pentrefi); a, Mesur 323 (cadw ac uwchraddio'r dreftadaeth wledig). Cafwyd effaith bositif anuniongyrchol o amrediad o Fesurau eraill yn ymwneud â chreu/cadw swyddi, darparu sgiliau newydd a hyfforddiant ac arallgyfeirio; er y byddai'n well asesu'r effeithiau yma mewn cyd-destunau eraill. Darparodd Echel 2 welliant cyffredinol mewn ansawdd bywyd drwy ddarparu nwyddau cyhoeddus.

## 5.4. Thema 4: Gwella'r amgylchedd a chefn gwlad

Roedd dwy ran o dair o'r gwariant o dan Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 ar Echel 2, y mecanwaith a ddefnyddiwyd i weithredu'r effeithiau ar adnoddau naturiol a'r tirlun, felly mae'n amlwg bod yr ateb ynglŷn â faint o welliannau a gafwyd yn yr amgylchedd a chefn gwlad o ganlyniad i'r gwariant yn berthnasol iawn. Mae'r ymateb cryno yma'n ymdrin yn ei dro ag amrywiol agweddau o'r amgylchedd a chefn gwlad; bioamrywiaeth a thirlun, addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, ansawdd y dŵr a chyflenwi ynni adnewyddadwy.

### 5.4.1. Bioamrywiaeth a thirlun

Yng nghyd-destun arglwyddiaethu ariannol Echel 2, mae'n anffodus bod problemau technegol wedi amharu ar y gallu i ffurfio barn ynglŷn â faint mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cyfrannu at wella'r amgylchedd. Mae'r Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin sy'n ymwneud â'r mater yma (PCEQ3), yn edrych yn fanylach ar hyn ac yn cyfeirio at y graddau y cyfrannodd y Rhaglen Datblygu Gwledig at amddiffyn a gwella'r tirlun a'r adnoddau naturiol, yn cynnwys bioamrywiaeth a ffermio a choedwigaeth sydd o werth mawr i natur (roedd hon yn flaenoriaeth strategol gymunedol ac roedd

Bioamrywiaeth hefyd yn amcan Gwiriad Iechyd CAP). Mae ein Adroddiad Technegol yn rhoi ateb i'r cwestiwn mwy estynedig yma.

Y broblem yw bod gwybodaeth ar goll. Y dangosyddion effaith oedd yn gysylltiedig â'r cwestiwn gwerthuso yma oedd:

- ***Gwyrdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth:*** Newid yn y duedd o ran dirywiad bioamrywiaeth, wedi ei fesur gan y boblogaeth o rywogaethau adar y ffermdir; a,
- ***Cynnal ardaloedd ffermio a choedwigaeth o Werth Mawr i Natur:*** newidiadau mewn ardaloedd o Werth Mawr i Natur.

Yn anffodus, nid oedd digon o ddata am boblogaeth adar y tir fferm ar gyfer y cyfnod 2007-13 i gyfrifo'r dangosydd yma ar gyfer y cyfnod cyfan. Er bod modd nodi nad oedd unrhyw newid rhwng 2007 a 2008, gostyngodd y nifer yn llym (7.5%) rhwng 2008 a 2009. Mae lefel mynegai Cymru'n dilyn lefel mynegai'r Deyrnas Unedig sydd wedi bod yn hynod newidiol, efallai oherwydd newidiadau mewn methodoleg.[4] Beth bynnag, nid yw'n dilyn bod newidiadau yn y mynegai yma wedi'u hachosi gan weithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig. Nid oedd Tir Gofal yn llwyddiannus ar y cyfan o ran cynyddu poblogaethau adar (a rhywogaethau eraill) lle cafodd ei weithredu, am amrywiaeth o resymau; y mwyaf perthnasol o'i fethiannau yn y cyswllt hwn oedd yr angen am ragnodion mwy effeithiol, wedi eu targedu at y mannau cywir. Mae'r rhain wedi derbyn sylw i raddau mawr yn y rhaglen Glastir dilynol, er mai'r cwbl sydd wedi digwydd ar y cam yma yw bod y canlyniadau tebygol wedi cael eu modelu. Nid oes data am ardaloedd ffermio a choedwigaeth o Werth Mawr i Natur ar gyfer y cyfnod yma o'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

Mae dehongli cyflawniad y Rhaglen Datblygu Gwledig yn erbyn amcanion bioamrywiaeth a thirlun nid yn unig yn heriol oherwydd diffyg data, ond hefyd am fod

[4] RSPB, Cymdeithas Adaryddiaeth Cymru, CCS, BTO Cymru, The Wildfowl & Wetlands Trust (2012) The State of Birds in Wales 2012.

newidiadau mewn metrigau bioamrywiaeth yn gallu cymryd nifer o flynyddoedd i ddwyn ffrwyth ar ôl yr ymyrriad rheoli cychwynnol; mae'n bosib felly nad yw effeithiau'n cael eu gweld yn yr un cyfnod â'r gweithgareddau a'u hachosodd nhw. Fodd bynnag, mae nifer o ddangosyddion canlyniadau'n berthnasol i'r mater yma ac mae'r rhain i'w gweld yn Nhabl 5.1. Ni chyflawnwyd unrhyw rai o'r targedau.

**Tabl 5.1: Dangosyddion canlyniadau'n ymwneud â bioamrywiaeth, coedwigaeth a ffermdir sydd o Werth Mawr i Natur**

| Dangosydd | Cyflawnwyd (31 Rhag 2015 | Targed | Cyflawniad / targed |
|---|---|---|---|
| Yr ardal o dan reolaeth tir llwyddiannus yn cyfrannu at osgoi ymyleiddio a gadael i dir fynd yn segur (ha) | 1,644,093 | 2,366,548 | 69% |
| Yr ardal o dan reolaeth tir llwyddiannus yn cyfrannu at wella bioamrywiaeth (ha) | 552,030 | 832,117 | 66% |
| Cynnydd yn arwynebedd y goedwigaeth frodorol (ha) | 556 | 22,530 | 2% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

Gwnaethpwyd rhywfaint o ddefnydd o'r cynlluniau creu coetir yn ystod y rhaglen ac efallai bod hyn wedi cyfrannu mewn ffordd fechan at y cynnydd perthnasol yn y gyfran o goetir llydanddail. Gwelwyd bod effeithiau'r coetir a grëwyd yn rhan o'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru yn dod â manteision y gellir eu mesur i fioamrywiaeth dros yr 20 mlynedd nesaf. Gallai gwerth cyfan hyn i Gymru mewn termau ariannol fod rhywle rhwng £70,849 a £1,069,653 ar brisiau 2012. Bydd y coetir sy'n cael ei greu yn rhan o Glastir yn arwain hefyd at newidiadau materol mewn bioamrywiaeth sydd wedi eu mesur yn nhermau cysylltedd ecolegol (enilliad o 3-12%). Fodd bynnag, roedd y defnydd a wnaethpwyd o'r cyfle i greu coedwigoedd yn llai o dipyn na'r disgwyliadau ar y dechrau, ac nid yw'r effeithiau wedi bod mor fawr ag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Ond mae rhywfaint o dystiolaeth ansoddol hefyd y bydd y mesurau a ariannwyd o dan Echel 2 yn cyfrannu at gynnal tirluniau, er nad yw hyn wedi ei feintioli'n eglur yn y deunydd gwybodaeth a adolygwyd.

I grynhoi, nid yw'n bosibl rhoi barn feintiol am effaith y Rhaglen Datblygu Gwledig yn nhermau ei chyfraniad at amddiffyn a gwella tirlun ac adnoddau naturiol yn cynnwys bioamrywiaeth a choedwigoedd a ffermydd o Werth Mawr i Natur am fod bylchau yn y data, oherwydd yr amser hir rhwng y gweithgaredd a'r effaith ac oherwydd ansicrwydd ynglŷn â phriodoli. Fodd bynnag, cafodd gweithgareddau Echel 2 eu had-drefnu'n fawr yn ystod y cyfnod rhaglennu gyda'r bwriad o ddarparu gwell canlyniadau. Dylid nodi mai dim ond dwy ran o dair o'r targed i ardaloedd dan reolaeth a gyflawnwyd, ond er gwaethaf hynny, roedd 552,030 hectar o dir o dan reolaeth tir llwyddiannus oedd wedi ei lunio i gyfrannu at welliannau mewn bioamrywiaeth. Mae manylion pellach yn yr ateb i PCEQ 3 yn yr Adroddiad Technegol, yn ogystal â'r adrannau sydd yno o dan asesiad lefel yr Echel.

### 5.4.2. Ansawdd y dŵr a'i reolaeth (ansawdd, defnydd a maint)

Unwaith eto, mae problemau gydag argaeledd data wedi golygu nad oes modd defnyddio dewis ddangosydd y Comisiwn (newidiadau mewn cydbwysedd maetholion gros). Ond, daeth y cynlluniau yn Echel 2 Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 ag ardal sylweddol o dir i gytundebau rheolaeth a ddylai fod wedi dod â gwelliant i ansawdd y dŵr, er bod llai na hanner y targed wedi'i gyflawni.

**Tabl 5.2: Echel 2 Dangosydd y Canlyniad o ran Dŵr**

| Mesur | Dangosydd | Cyflawnwyd (31 Rhag 2015) | Targed | Cyfran o'r Targed |
|---|---|---|---|---|
| 214 / 216 | Ardal o dan reolaeth tir llwyddiannus yn cyfrannu at welliant yn ansawdd y dŵr | 432,998 | 923,654 | 47% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

Er bod Tir Gofal a Thir Cynnal (cynlluniau a weithredwyd yn rhan gyntaf y cyfnod 2007-13 hyd nes bo Glastir wedi cymryd eu lle) wedi arwain at ostyngiadau mewn defnyddio gwrtaith o oddeutu 6-14%, canfu gwerthusiad a wnaed nad oedd yn gallu gweld cysylltiad rhwng y naill gynllun na'r llall gyda newidiadau yn ansawdd y dŵr (gweler y manylion yn yr ateb i PCEQ 8 yn yr Adroddiad Technegol). Cafodd y

Cynllun Ffermio Organig effaith fwy sylweddol ar ostwng gwrtaith (gostyngiad o 42-82%), ond nid yw'n ymddangos bod yr effaith ar ansawdd y dŵr wedi cael ei asesu yn rhan o'r gwerthusiad.

Yn ôl gwaith modelu, disgwylir i Glastir gael effeithiau positif ar ansawdd y dŵr, ond bydd y rhain yn cael eu gweld bennaf yn y dalgylchoedd sydd â blaenoriaeth. Yn ogystal, ar gyfer opsiynau creu coetir sydd wedi cael eu modelu, gallai'r gostyngiad mewn pridd wedi erydu a ffosfforws sy'n cyrraedd cronfeydd dŵr fod mor uchel â 15%.

Mae'r cynlluniau Mesur 121 (Cynllun Ffermio sy'n Sensitif i'r Dalgylch a Chynllun Grant Effeithiolrwydd Glastir) wedi dod â gwelliant mewn rheoli gwrtaith a maetholion ac wedi cynyddu'r gallu i storio gwrtaith. Roedd y gwaith modelu a wnaed ar 12 fferm oedd wedi derbyn cymorth o dan y cyntaf yn dangos bod colledion o fuarthau a mannau daear caled yn rhy fach i fod o bwys yn dilyn y gwaith lliniaru a wnaethpwyd; roedd y gwaith o fonitro dŵr ffo yn dangos gwelliannau hefyd. Daeth manteision ychwanegol o ffensio cyrsiau dŵr rhag y da byw, o wahanu dŵr glan oddi wrth y dŵr ffo budr sy'n dod oddi ar arwynebau anhydraidd, ac o wella offer taenu gwrtaith.

I grynhoi, nid oes data ar gael i wneud asesiad meintiol uniongyrchol o faint y cyfrannodd y Rhaglen Datblygu Gwledig at welliant mewn rheoli dŵr. O ddweud hynny, daeth oddeutu 432,998 hectar o dan reolaeth tir llwyddiannus gan gyfrannu at welliant mewn ansawdd dŵr. Er bod amrywiol gynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi peri gostyngiad mewn defnyddio gwrtaith, mae'n ymddangos nad oes gwaith ymchwil wedi'i wneud i archwilio effaith hyn ar ansawdd dŵr. Mae asesiadau o effaith y cynlluniau o dan Fesur 121 (Cynllun Ffermio sy'n Sensitif i'r Dalgylch a Chynllun Grant Effeithiolrwydd Glastir) a luniwyd i wella ansawdd dŵr yn dangos bod y rhain yn weithrediadau llwyddiannus. Mae manylion pellach yn yr ateb i PCEQ 8 yn yr Adroddiad Technegol.

### 5.4.3. Lliniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd

Mae'r data am allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaethyddiaeth ar gyfer y cyfnod yn anghyflawn, er eu bod wedi parhau'n weddol statig dros y cyfnod y mae data ar ei gyfer (2007-12). Gostyngodd allyriadau amonia ychydig bach rhwng 2007 a 2009, ond llwyddodd mesurau Echel 2 i sicrhau ardal o 417,190 hectar o dan gytundebau rheoli a leihaodd y newid yn yr hinsawdd.

**Tabl 5.3: Echel 2 Dangosydd y canlyniad yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd**

| Mesur | Dangosydd | Target | Cyflawnwyd (31 Rhag 2015) | Y gyfran o'r Targed |
|---|---|---|---|---|
| 214 / 216 | Ardal o dan reolaeth tir llwyddianus yn cyfrannu at leihau'r newid yn yr hinsawdd (ha) | 838,698 | 417,190 | 50% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

Cafodd cyfraniadau ac allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r cynlluniau etifeddol eu modelu yn rhan o waith gwerthuso a monitro Tir Cynnal/Tir Gofal. Ar draws y cynlluniau yma roedd gostyngiad o 5.2% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynnydd o 12.2% mewn enciliad carbon (er bod hyn yn berthnasol i fywyd cyfan y cynlluniau, a gychwynnodd cyn cyfnod rhaglennu 2007-2013). O ran yr opsiynau Glastir a fodelwyd, roedd y gostyngiadau disgwyliedig mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn weddol fach (<1%) yng nghyd-destun yr allyriadau lefel cenedlaethol.

Nid yw'r dangosyddion canlyniadau'n dangos yr enciliad carbon a'r lleihau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol o ganlyniad i greu coetiroedd. Fodd bynnag, efallai bod yr effaith yma'n weddol fychan o'i asesu ar y lefel genedlaethol. I Goetiroedd Gwell i Gymru, modelwyd yr enciliad carbon i fod rhwng 3,267 tunnell o $CO_2$ a 31,486 tunnell o $CO_2$ dros gyfnod o 20 mlynedd; ni fydd yr opsiynau Glastir a fodelwyd yn cynyddu'r stôr o fwy nag 1%. Fodd bynnag, gallai'r coetir a grëwyd fel rhan o Glastir gael effaith faterol yn nhermau addasu'r newid yn yr hinsawdd, gyda gostyngiad o 1-9% yn bosibl mewn tir sy'n cynhyrchu llifogydd.

Darparodd Echel 1 Mesur 121, sy'n cynnwys y Cynllun Ffermio sy'n Sensitif i'r Dalgylch a Chynllun Grant Effeithiolrwydd Glastir, gyfraniadau hefyd tuag at leihau ac addasu'r newid yn yr hinsawdd. Ymysg pethau eraill, roedd y rhain yn cynnwys gwell rheolaeth ar wrtaith a maetholion a chynnydd yn y gallu i storio gwrtaith, y mae'r ddau wedi cynyddu effeithiolrwydd y defnydd ar gyfer mewnosod ac felly byddent wedi lleihau'r newid yn yr hinsawdd i ryw raddau anghyffwrddadwy. Fel y nodwyd isod, gwnaethpwyd nifer o weithgareddau mewn perthynas â chynhyrchu ynni adnewyddadwy, o drosglwyddo gwybodaeth, i grantiau i annog cynhyrchiad. Bydd y rhain hefyd wedi helpu i leihau'r newid yn yr hinsawdd. Y prif effaith fodd bynnag fydd drwy Echel 2 o ganlyniad i ddyrannu cyllid a'r effeithiau a ddarperir.

I grynhoi, nid oes data ar gael i ganiatáu asesiad meintiol uniongyrchol o faint y cyfrannodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 at leihau ac addasu'r newid yn yr hinsawdd. Ond, daethpwyd ag oddeutu 417,190 hectar o dan gytundebau rheoli tir gan gyfrannu at leihau'r newid yn yr hinsawdd. Mae canlyniadau modelu'n awgrymu bod cynnydd wedi digwydd mewn enciliad carbon (12.2%) a bod gostyngiad wedi bod mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (5.2%) o dan y Tir Cynnal a'r Tir Gofal, ond mae effaith y cynllun dilynol, Glastir, ychydig yn fwy cymedrol, er mai dim ond chwe opsiwn Glastir sydd wedi cael eu modelu yn erbyn defnydd disgwyliedig yn hyrach na defnydd gwirioneddol. Wedi dweud hynny, roedd potensial gan y gwaith o greu coedwigoedd, o dan gynllun Glastir, o ostwng tir cynhyrchu llifogydd o hyd at 9% yn y dyfodol. Cyfrannodd agweddau eraill o'r Rhaglen Datblygu Gwledig nad ydynt yn rhai Echel 2 at newid yn yr hinsawdd drwy gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae rhagor o fanylion yn yr ateb i PCEQ 7 yr Adroddiad Technegol.

### 5.4.4. Cyflenwi ynni adnewyddadwy

Roedd gan Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 hanes oedd yn datblygu o ymwneud â chyflenwi ynni adnewyddadwy. Ceir adroddiadau ar weithgareddau sy'n berthnasol i ynni adnewyddadwy yn Adroddiadau Gweithredu Blynyddol y Rhaglen

Datblygu Gwledig o 2010 ymlaen. Soniodd Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2010 am ddiddordeb sylweddol yn rhaglen datblygiad y newid yn yr hinsawd a ddarparwyd yn rhan o weithgaredd trosglwyddo gwybodaeth o dan Fesur 111 (Cyswllt Ffermio). Er bod nifer o bynciau'n ymwneud â chynyddu effeithiolrwydd y defnydd a wneir o ynni, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ospiynau ynni adnewyddadwy. Roedd y pynciau a archwiliwyd ar sail y fferm unigol yn cynnwys yr effaith ar fusnes o edrych ar ddefnyddio Tariffau Cyflenwi Trydan (FiTs) ar gyfer ynni a gynhyrchir gyda gwynt, hydro a haul.

Yn wreiddiol cynigiwyd Cynllun Lleihau Carbon Amaethyddol (ACRES) Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 (a ddaeth cyn Cynllun Grant Effeithiolrwydd Glastir) fel ymateb i heriau Gwiriad Iechyd CAP 2008 a thargedau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer newid yn yr hinsawdd oedd yn gofyn bod y sector amaethyddol yng Nghymru'n gostwng allyriadau cyfatebol â charbon. Fodd bynnag, dywedodd Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2011, o ganlyniad i lansio Tariffau Cyflenwi Trydan (FiT) a'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy (RHI) gan Lywodraeth Prydain, bod grantiau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a chynhyrchu gwres adnewyddadwy wedi cael eu tynnu allan o ACRES.

Hefyd soniodd Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2011 bod Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi cynnal Cyfarfod Thematig am Ynni Adnewyddadwy Cymunedol y daeth 58 o gynrychiolwyr iddo; nododd Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2012 y nifer uchel o fuddiolwyr prosiectau Echelau 3 a 4 mewn perthynas â cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng nghyfnod y Cynllun Busnes 1 o dan Fesur 311. Gan nad oedd y FiT ar gael bellach, defnyddiwyd grantiau o dan y prosiect yma i wella cynhyrchiad ynni adnewyddadwy. Roedd Adroddiadau Gweithredu Blynyddol diweddarach yn nodi'n glir bod y nifer uchel yma o fuddiolwyr yn parhau.

Roedd Adroddiadau Gweithredu Blynyddol o 2012 ymlaen yn darparu nifer o astudiaethau achos lle defnyddiwyd cefnogaeth ar gyfer nifer o weithgareddau, yn cynnwys:

- cynhyrchu ynni adnewyddadwy o osod Panelau Ffotofoltäig, tyrbinau gwynt a bwyleri biomas
- cynhyrchu sglodion pren i danio bwyleri biomas; a
- chyflenwi ynni i fferm sydd heb gysylltiad â phrif gyflenwadau trydan, nwy, dŵr neu garthffosiaeth.

Er gwaethaf y dystiolaeth sydd wedi ei chyflwyno uchod sy'n dangos bod gweithgareddau sy'n berthnasol i weithgareddau adnewyddadwy wedi digwydd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, nid oes unrhyw ddata i asesu'r effaith ar ***gynhyrchiad*** ynni adnewyddadwy.

I grynhoi, mae'n amlwg bod cyflenwi ynni adnewyddadwy o 2010 ymlaen yn weithgaredd a dderbyniodd sylw o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig drwy drosglwyddo gwybodaeth a chyngor i grantiau am arallgyfeirio. Fodd bynnag, nid oes data i ganiatáu asesiad o faint yr effaith posibl a gafodd hyn. Mae rhagor o fanylion yn yr ateb i PCEQ 4 yn yr Adroddiad Technegol.

### 5.5. Cyflawniad yn nhermau themâu trawsbynciol

Yn ogystal â'r hyn a gyflawnodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 yn nhermau'r amcanion sy'n ymwneud â'r amcanion o wella gallu cystadleuol y sectorau amaethyddol a choedwigaeth, gwella'r amgylchedd a'r tirlun, ac ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig (ynghyd â defnyddio'r dull LEADER), roedd angen i'r gwerthusiad *ex-post* yma ystyried sut yr oedd yn perfformio yn erbyn nifer o themâu trawsbynciol penodol. Ar lefel gyffredinol, roedd yn rhaid cael cydymffurfiad gyda chyfres o bolisïau cymunedol, yn cynnwys hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau a dim gwahaniaethu. Mae'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin yn cynnwys cwestiynau (PSEQ 26 a 27) am y ffordd yr oedd grwpiau penodol o fewn y

boblogaeth yn cael eu hystyried ar gyfer blaenoriaeth yng ngweithgareddau Echel 3 a 4, grwpiau oedd yn cynnwys merched, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau ethnig lleiafrifol a du, cymunedau sy'n siarad Cymraeg, pobl sydd wedi'u tangyflogi a mentrau micro a bach. Yn ogystal, roedd prosiectau a ariannwyd o dan Echelau 3 a 4 wedi eu llunio i integreiddio themâu trawsbynciol i mewn i weithgareddau yn cynnwys: cyfleoedd cyfartal; cynaliadwyedd amgylcheddol; technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (oedd yn cynnwys y Cynllun Cymorth Band Eang ac adroddiad pecyn cymorth Band Eang Rhwydwaith Gwledig Cymru); a'r iaith Gymraeg.

### 5.5.1. Ffermwyr ifanc

Yr unig is-grwpiau a bennwyd ar y lefel genedlaethol, o fewn y grŵp targed ffermio oedd ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid. I gydnabod yr angen i ddenu ffermwyr ifanc i mewn i'r diwydiant, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS) ym mis Gorffennaf 2009. Cafodd y cynllun yma ei ariannu'n ddomestig ac felly, yn dechnegol, nid yw'n atebol i'r gwerthusiad *ex-post*. Er hynny, mae ei gyflwyniad yn darparu tystiolaeth dda bod anghenion ffermwyr ifanc yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ac roedd y cynllun yn cyflenwi Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 drwy ddarparu cymorth i ffermwyr o dan 40 oed oedd yn eu gosod eu hunain yn benaethiaid fferm am y tro cyntaf.

### 5.5.2. Merched

Roedd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 fel rhaglen gyfan yn gweithredu ar y syniad bod modd i unrhyw un oedd yn gymwys i'w gael wneud cais;  targedwyd sectorau neu grwpiau ac felly roedd yn niwtral o ran y rhywiau. Fodd bynnag, cafodd un elfen o Fesur 111 Echel 1 (Cyswllt Ffermio) ei chlustnodi'n benodol i gefnogi merched sy'n ymwneud â busnesau ffermio neu goedwigaeth yng Nghymru. Trwy'r fenter *Merched y Maes* yma, gallai merched gael mynediad at yr wybodaeth, y newyddion a'r gwaith ymchwil diweddaraf gan arbenigwyr yn y diwydiant; roedd hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt rannu arferion gorau a dysgu gan eraill. Y targed o dan y fenter hon oedd darparu 15 o ddigwyddadau; dros y cyfnod 2007-13. Cynhaliwyd 39 o ddigwyddiadau gydag 13 arall yn 2014 o dan yr estyniad i Cyswllt Ffermio;

cymerodd 630 o ferched ran yn y digwyddiadau yma. Ond, un anfantais o ddefnyddio'r term Cymraeg oedd ei fod, yn ôl rhai rhanddeiliaid, yn achosi rhwystr i'r defnydd yn Ne Cymru.

Mae'r Adroddiad Technegol yn tystio i'r ffaith fod buddiolwyr *Merched y Maes* yn dweud bod y cynllun wedi codi eu hymwybyddiaeth am faterion ac wedi rhoi "dealltwriaeth iddynt am ferched ac amaethyddiaeth". Soniodd nifer o'r cyfranogwyr benywaidd fod angen gwasanaeth arbenigol i ferched a bod angen iddynt gael eu gwerthfawrogi o fewn y gymuned ffermio ac y gallent ddod â newidiadau o ganlyniad i hynny. Er nad oedd modd mesur effaith y gwasanaeth yma mewn termau ariannol, cafodd ei adlewyrchu mewn sylwadau anecdotaidd gan y merched perthnasol (gweler Flwch 5.3).

**Blwch 5.3: Sylwadau gan gyfranogwyr ym *Merched y Maes***

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod cymryd rhan yn y cynllun wedi effeithio arnynt mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft:

> "*Mae'r elfen rwydweithio wedi bod yn rhagorol. Dydy hi ddim bob amser yn hawdd bod yn ferch ym myd amaethyddiaeth, mae wedi bod yn fyd traddodiadol y dyn yn hanesyddol, ond mae trafod y fferm a newidiadau pwysig i ffermio, megis TAW ar-lein, wedi bod yn wych. Mae gallu rhannu wedi bod yn beth da.*"

> "*Cwrdd â merched sydd yn yr un sefyllfa â fi…Nid oedd y fath beth â Cyswllt Ffermio i'w gael yn ein dyddiau ni felly mae hwn yn gam newydd a phositif i ffermwyr.*"

> "*Siarad gyda merched eraill mewn amaethyddiaeth, rydym yn brin iawn i fod yn onest!*"

Ffynhonnell: Cynhaliwyd cyfweliadau gyda defnyddwyr llinynau niferus y gwasanaethau Cyswllt Ffermio gan Agra CEAS Consulting (2016); roedd chwe ymatebwr wedi cymryd rhan yn *Merched y Maes.*

I grynhoi, mae'n amlwg bod y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi ei llunio a'i gweithredu gyda sylw manwl i gydraddoldeb ac osgoi gwahaniaethu. Rhoddwyd sylw penodol i anghenion nifer o grwpiau a benwyd a chasglwyd data monitro y gellir ei ddefnyddio i asesu perfformiad. Fodd bynnag, heb unrhyw fath o ddata gwaelodlin/cyd-destun nid yw'n bosibl barnu i ba raddau yr oedd yr ymdrechion a wnaed yn llwyddiannus. Ond,

mae’n amlwg fod pob ymdrech resymol wedi cael ei gwneud i osgoi gwahaniaethu o unrhyw fath.

# 6. Gwerthuso'r dulliau darparu

**Negeseuon allweddol**

- Aseswyd darpariaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig fel un ***effeithiol ac effeithlon***, er bod rhai meysydd lle gellid gwella.
- Roedd rhai problemau'n parhau oedd yn codi o ddarpariaeth gyfunedig Echelau 3 a 4.
- Nid oedd digon o dystiolaeth y gellid ei defnyddio i asesu pa mor rhesymol oedd y costau darparu, er nad oedd unrhyw beth i awgrymu bod y rhain yn afresymol.

Yr Awdurdod Rheoli oedd yn gyfrifol am ddarparu Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 oedd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru i gychwyn), a hithau hefyd oedd yr Asiantaeth Dalu unigol i Gymru. Mae'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin yn gofyn am atebion yn ymwneud ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig, ac hefyd pa mor rhesymol oedd y costau darparu. Er bod yr Adroddiad Technegol yn gwahanu'r cyntaf o'r ddwy agwedd yma sy'n ymwneud yn agos â'i gilydd (gwelwch PSEQ 23 a 24), cânt eu trin gyda'i gilydd yn yr Adroddiad Cryno yma.

Mae strwythur Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru'n golygu bod rhaid adeiladu'r ymateb ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol darpariaeth y rhaglen o'r canfyddiadau sy'n ymwneud â Mesurau unigol a'r cynlluniau yr oeddent yn eu cefnogi. Yn anochel bron, mae hyn yn gofyn ymdrin ag amrywiaeth o elfennau effeithiolrwydd. Mae pa mor rhesymol yw'r costau darparu, sy'n edrych ar y berthynas rhwng cost y ddarpariaeth a gwerth y gwasanaeth a ddarperir, yn fater sy'n ddigon arwahanol i sefyll ar ei ben ei hun (PSEQ 25 yn yr Adroddiad Technegol).

Mae gan ***effeithiolrwydd*** ac ***effeithlonrwydd*** y ddarpariaeth ystyron cyfyngedig mewn ystyr statig, ac mae'n llawer mwy perthnasol gweld a wnaed newidiadau yn ystod bywyd y Rhaglen Datblygu Gwledig i ganfod gwelliannau o ganlyniad i adolygu sut y cafodd pethau eu darparu ar y dechrau. Roedd y safleoedd cychwyn yma eu hunain yn adlewyrchu gwersi a ddysgwyd yn Rhaglen Datblygu Gwledig 2000-06. Mae effeithiolrwydd yn ystyried i ba raddau y cyflawnir y canlyniad a fwriadwyd gan y cynllun. Mae gan effeithlonrwydd fwy i'w wneud â gallu darparu canlyniad y cynllun am gost is, ac eto mae ffocws y diddordeb ar weld a oes newidiadau wedi eu gwneud gyda'r canlyniad hwnnw mewn golwg. Yn y fan yma, ni allwn ond ystyried y newidiadau mawrion yn strwythur y ddarpariaeth; does dim amheuaeth bod nifer o addasiadau gweithrediadol eraill wrth i'r ddarpariaeth ddatblygu.

**Echel 1**

Cafodd y dull darparu ar gyfer Mesurau 111 a 114 (Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cynghori Ffermydd) ei symleiddio a daeth hynny i rym o fis Medi 2011, gyda'r bwriad o gynyddu effeithiolrwydd. Roedd symleiddio Cyswllt Ffermio i dri phrif Lot darparu yn ymdrin â'r angen am well cydlyniad a gostyngiad mewn dyblygu. Ar ôl tendro cystadleuol, cafodd Menter a Busnes ei gontractio i ddarparu'r tri yma, ac hefyd y Gwasanaeth Cynghori Ffermydd. Mae'r newid mewn darpariaeth wedi gofyn newid hefyd o ddull sail sectorau i ddull rhanbarthol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweld manteision i hynny. Darparodd yr ad-drefniad hefyd y gwell trefnu oedd yn angenrheidiol i ddarparu themâu trawsbynciol.

Tynnodd gwerthusiad Mesur 124 (Cynllun Effeithiolrwydd y Gadwyn Gyflenwi) sylw at yr hyn yr oedd yn ei ystyried yn ddull llai nag effeithiol o godi ymwybyddiaeth am y cynllun, oedd yn cyfaddawdu'r ymgysylltiad â'r cynhyrchydd cynradd. Roedd hefyd yn nodi cymhlethdod ychwanegol o ganlyniad i gyfuno prosiectau unigol. Efallai hefyd bod amcanion eang y cynllun, a ffocws ar feini prawf cymhwysedd sylfaenol yn y broses gymeradwyo prosiect, wedi cael yr effaith o ostwng effeithiolrwydd.

Roedd ailstrwythuro darpariaeth Echel 1 yn adlewyrchu proses ddysgu lle gwnaed newidiadau o fecanweithiau darparu oedd yn llai effeithiol a llai effeithlon i ddechrau, i rai gwell. Mae'r ffaith fod y trefniadau diwygiedig wedi cael eu cario drosodd i raddau mawr i mewn i'r cyfnod rhaglennu dilynol yn awgrymu bod eu perfformiadau wedi bod yn dderbyniol.

**Echel 2**

Canfu'r adolygiad o weithgareddau rheoli tir o dan Echel 2 gan Lywodraeth Cymru yn 2008 bod y cynlluniau amaeth-amgylcheddol oedd ar waith bryd hynny heb lwyddo i ddarparu canlyniadau Strategaeth Amgylchedd Cymru y Llywodraeth. Nid oedd y Strategaeth yn bodoli pan gafodd y rafft o gynlluniau eu llunio. Ymhellach, nid oeddent wedi eu halinio'n dda gyda heriau newydd a heriau oedd yn ymddangos, megis newid yn yr hinsawdd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. O ganlyniad, ni ellid ystyried y cynlluniau yma'n rhai effeithiol fel grŵp. Y cwestiwn yn y fan yma yw hyn: a oedd Glastir, a ddaeth â nhw i mewn i un fframwaith unigol ar gyfer rhan olaf Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-13, yn fecanwaith mwy effeithiol ar gyfer darparu'r rhaglen?

Defnyddiodd Glastir dargedu gofodol, a defnyddiodd Ddull Gwasanaethau Ecosystem, y mae'r ddau wedi cael eu cydnabod yn rhai arloesol gan archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru a chan academyddion sy'n ysgrifennu mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid. Mae'r elfen Tir Comin o fewn y cynllun Glastir wedi golygu bod gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol lawer iawn mwy o dir comin (roedd 147 o gytundebau Tir Comin Glastir ar waith ym mis Mai 2013, oedd yn ymdrin â 48% o dir comin Cymru, o'i gymharu â dim ond 2% o dan y cynllun Tir Gofal). Efallai hefyd bod cyflwyno Swyddogion Datblygiad Tir Comin wedi cyfrannu at y gwelliant dramatig yma ym maint y tir oedd gan Glastir o'i gymharu â'r cynlluniau cyn Glastir.

Unwaith eto, mae'r ffaith fod Glastir wedi parhau i mewn i'r Rhaglen Datblygu Gwledig dilynol yn golygu bod ei berfformiad yn dderbyniol erbyn diwedd y cyfnod 2007-13.

**Echel 3 ac Echel 4**

Canfu gwerthuswyr (a ddyfynnwyd yn yr Adroddiad Technegol) yn 2013 bod dulliau darparu Echelau 3 a 4 yn gymhleth a bod hyn, yn ôl y casgliadau, wedi mynd yn drech na'r rhaglenni. Roedd angen integreiddio darpariaeth yn fertigol i atal y dyblygiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff arweiniol, yn enwedig o ran gwerthusiad dwbl y prosiectau, ac yn llorweddol er mwyn gostwng dyblygiad gweithgareddau a wnaethpwyd ar wahân yn yr 18 rhanbarth ledled Cymru. Teimlwyd bod modd rhannu rolau gweinyddol, yn cynnwys gweithgareddau gweinyddol ariannol.

Barnwyd bod gweithrediad ochr yn ochr Echelau 3 a 4 yn heriol ac yn gymhleth i'w gweinyddu ac mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd bod y manteision a ragwelwyd wedi eu gweithredu. Llwyddodd yr agwedd led-integredig i leihau effeithiolrwydd LEADER am nad oedd wedi'i weithredu'n gyflawn ledled Cymru. Ond, gwelwyd gwelliant yn rhai o'r problemau gweinyddol a ganfuwyd dros y cyfnod rhaglennu. Cyflwynwyd aneffeithiolrwydd pellach drwy gysylltu Echel 3 ac Echel 4, oedd yn gofyn bod gan ranbarthau Bartneriaeth a LAG hefyd. Er bod rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod hyn yn fuddiol, roedd eraill yn teimlo bod hyn yn aneffeithlon. Roedd elfennau aneffeithlon o fewn y broses o bennu, datblygu a chymeradwyo prosiectau. Gellid ystyried y gofyniad i ddatblygu Strategaeth Datblygiad Lleol, ac yna Gynlluniau Busnes, yn aneffeithlon hefyd. Yna ystyriodd y broses gymeradwyo bob prosiect yn unigol, a allai fod wedi achosi bylchau mewn strategaethau trosfwaol pe na bai prosiectau penodol wedi eu cymeradwyo.

O'r dystiolaeth yma, y casgliad y gellir dod iddo am ***effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd*** mewn perthynas â'r pedair Echel, yw bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r gwerthusiadau a wnaed yn

hanner cyntaf y rhaglen ac a barhaodd esblygiad y ddarpariaeth tuag at becyn mwy cydlynol yn ail hanner y rhaglen. Er bod gwelliannau pellach yn bosibl wrth gwrs, mae'r ffaith fod y mecanweithiau darparu wedi'u cario drosodd heb fawr newid i'r cyfnod rhaglennu nesaf, yn arwydd eu bod yn foddhaol yn yr ystyr o fod yn effeithiol ac yn effeithlon.

O ran asesu ***rhesymoldeb*** costau darparu Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13, y cam cyntaf fyddai ynysu costau darparu'r Rhaglen oddi wrth y gwariant ar weithgareddau. Yn ôl y data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, y gwariant cyfan ar Raglen Datblygu Gwledig 2007-13 oedd €994,070,494, y gwariwyd €30,231,736 ohono ar Gymorth Technegol. Byddai rhesymoldeb, felly, yn gofyn cymharu'r costau darparu gyda'r ffigur yma. Fodd bynnag, esboniodd swyddog o Lywodraeth Cymru nad oedd costau darparu yn dod yn gyffredinol o gyllideb y Rhaglen Datblygu Gwledig a bod Llywodraeth Cymru'n cwrdd â chostau staff cyflogedig.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n gwybod yn gyffredinol beth yw cost darparu'r cynllun. Derbynnir y bydd hi'n gymhleth iawn weithiau i gyfrifo costau darparu lle mae gan staff rolau niferus ac na ellir aseinio eu costau'n fanwl gywir i dasgau penodol; y cwbl a geir yw'r cwestiwn sut y dylid ystyried a dosrannu gor-gostau. Yr unig eithriad i hyn mae'n ymddangos yw Mesur 123 (cynllun y Grant Prosesu a Marchnata) lle'r oedd Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif costau darparu o £2.9 miliwn dros fywyd y cynllun, yr oedd £2.3 miliwn ohono'n dod o'r Uned Rheoli Cynllun a £0.6 miliwn o swyddogaethau gwerthuso ac archwilio. Maint y costau hyn oedd £0.09 ar gyfer pob £1 a wariwyd mewn cyllido grant.

O ganlyniad i'r anawsterau yma, nid yw'n bosibl pennu cost cadarn am ddarpariaeth y Rhaglen felly ni ellir asesu rhesymoldeb (neu afresymoldeb) hyn. Fodd bynnag, rydym yn hyderus y bydd y system o ***adolygu perfformiad*** wedi diddymu'r esiamplau mwyaf amlwg a brys o wastraffu adnoddau'n afresymol wrth weinyddu Rhaglen.

# 7. Perfformiad y dulliau sy'n cael eu hariannu dan y pennawd Cymorth Technegol

**Negeseuon allweddol**

- Defnyddiwyd arian Cymorth Technegol mewn amrywiol ffyrdd i gefnogi gweithrediad Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13.
- Roedd Rhwydwaith Gwledig Cymru, sy'n orfodol o dan y Rheolaeth, yn un o'r ffyrdd yma. Drwy hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng cyfranogwyr, cyfrannodd hyn at gyflawni amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig, er nad oedd y cyfraniad yma mor bositif ag y gallai fod.
- Un arall oedd y prosiect Strategaeth Gyfathrebu, ond terfynwyd hon yn dilyn gwerthusiad yn 2012 pan symudwyd y gwaith yma at Rwydwaith Gwledig Cymru er mwyn gwella effeithlonrwydd a chydlyniad, sy'n dystiolaeth o'r pryder parhaus sydd gan Lywodraeth Cymru am berfformiad y darparu.

Roedd arian a ddarparwyd o dan adran Cymorth Technegol y Rheoliad Datblygu Gwledig wedi caniatáu ystod o weithgareddau a sefydliadau oedd wedi'u bwriadu i hwyluso gweithrediad Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13. Mae'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin yn cynnwys ystod o gwestiynau yn ymwneud yn benodol â gweithgareddau sy'n cael eu hariannau o'r Cymorth Technegol. Dyma oedden nhw yn y cyfnod o dan adolygiad:

- Rhwydwaith Gwledig Cymru;
- Arsyllfa Wledig Cymru;
- monitro a gwerthuso;
- y Pwyllgor Monitro Rhaglenni;
- Gweithredu'r strategaeth gyfathrebu;
- prosiect adnoddau ychwanegol;
- tiroedd comin Glastir;
- gweithredu Glastir; a,

- Rhaglen Fonitro a Gwerthuso Glastir (GMEP).

Mae manylion pob un i'w cael yn yr Adroddiad Technegol o dan yr atebion i PSEQ 29-44. Roedd rhai o'r meysydd yma o wariant yn ymwneud â gweithrediad Glastir ac maent wedi derbyn ystyriaeth yn barod mewn perthynas â gwerthuso'r cynllun hwnnw. Gellir ystyried rhai ohonynt yn 'weinyddu trefnus' wrth ddelio gyda'r Rhaglen Datblygu Gwledig gan ddefnyddio arian cyhoeddus, megis y gweithgareddau monitro a gwerthuso gorfodol a darparu adnoddau ychwanegol (yn ei hanfod, ariannu staff ychwanegol) i hwyluso gweithrediad boddhaol y Rhaglen Datblygu Gwledig a'r pontio i'r Rhaglen newydd. Fodd bynnag, byddai'n werthfawr rhoi sylw i ddau weithgaredd sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol gyda'r hyn a gyflawnodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13.

### 7.1. Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRN)

Roedd Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol Cymru'n orfodol o dan y Rheoliad Datblygiad Gwledig. Cafodd ei redeg gan Lywodraeth Cymru a'i lywio gan Grŵp Llywio o 15 rhanddeiliad ac fe aeth ati i dynhau'r trefniadau blaenorol llai ffurfiol i ddod â grwpiau o bobl oedd â diddordeb at ei gilydd yn y broses ddarparu er mwyn hyrwyddo'r prosesau cyfnewid arbenigedd, darparu cefnogaeth a phrofiad gwerthuso'r polisi datblygiad gwledig. Pe na bai'r rhwydwaith wedi bod yn orfodol, mae'n debyg y byddai rhywbeth wedi cael ei drefnu ar sail genedlaethol, fel a ddigwyddodd yn y Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru flaenorol. Yn ogystal â gweithredu ei swyddogaeth ar lefel Cymru, bwriadwyd i Rwydwaith Gwledig Cymru gydlynu ffrydiau gwybodaeth gyda Rhaglenni Datblygiad Gwledig eraill yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.

Archwilir Rhwydwaith Gwledig Cymru'n fanwl yn yr Adroddiad Technegol (gweler yr atebion i PSEQ 31-39; mae PSEQ 38 yn ymdrin yn gyfan gwbl gyda'i gyfraniad i amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig). Sefydlwyd Rhwydwaith Gwledig Cymru yn fuan yn 2008, cyn y dyddiad cau rheoliadol, ac felly gwnaed yn fawr o'r amser oedd

ganddo i gyfrannu at amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'n ymddangos bod gan y rhanddeiliaid feddwl uchel o'r gweithgareddau a wnaed gan Rwydwaith Gwledig Cymru yn 2012 ac ystyriwyd ei ddigwyddiadau thematig yn briodol, er bod barn y rhanddeiliaid hynny a gyfwelwyd yn rhan o'r gwerthusiad yma'n llai positif. Fodd bynnag, codwyd materion yn ymwneud â rheolaeth, ymwybyddiaeth, cyfathrebu a hyfforddiant a mentora sy'n debygol o fod wedi gostwng y cyfraniad a wnaed i amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig a fyddai wedi digwydd o bosib fel arall.

Roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn rhan o'r gwerthusiad yma'n teimlo bod y ffaith nad oedd Rhwydwaith Gwledig Cymru'n annibynnol i Lywodraeth Cymru'n creu anawsterau, yn enwedig yn nhermau'r defnydd a wnaed o'r cyfryngau cymdeithasol a phresenoldeb y Rhwydwaith ar y we; yn eu barn hwy, nid oedd Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi cyrraedd ei botensial llawn o ganlyniad i hynny. I grynhoi gallwn fod yn hyderus bod cyfraniad wedi digwydd i gyflawni amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig er nad oedd y cyflawniad yma mor bositif ag y gallai fod.

### 7.2. Cyfathrebu

Mae'r angen am Strategaeth Gyfathrebu wedi ei nodi yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ac felly gellir ei ystyried yn un creiddiol berthnasol o ran cefnogi'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Gellir gweld amrywiol agweddau o gyfathrebu:

- ***Cyfathrebu mewnol*** yn cynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid darparu;
- ***Y wasg a chysylltiadau cyhoeddus,*** lle'r oedd yn rhaid tynnu sylw at rôl yr Undeb Ewropeaidd mewn gweithgareddau cefnogi. Ond, mae nifer o randdeiliaid ac asiantaethau darparu (megis Cyswllt Ffermio mewn perthynas â'i weithgareddau) wedi rhedeg eu gwasg a'u cysylltiadau cyhoeddus eu hunain hefyd ac yn teimlo eu bod wedi gwneud hynny'n dda. Cydnabuwyd bod dyblygiad rhwng gweithgareddau cenedlaethol a rhanbarthol;
- ***Digwyddiadau*** i dynnu sylw at agwedd ddethol o'r Rhaglen Datblygu Gwledig;
- ymwybyddiaeth o'r ***brand Rhaglen Datblygu Gwledig***,

- cyhoeddi ***placiau ac arweiniad**,* a,
- ***defnyddio Gwlad*,** sef cyhoeddiad gyda chylchrediad o oddeutu 40,000 sy'n cynnwys erthyglau a deunydd codi ymwybyddiaeth yn rheolaidd a ddarperir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig yn ganolog neu drwy asiantau darparu (megis Cyswllt Ffermio). Enwir hwn yn aml fel agwedd cyfathrebu mwyaf llwyddiannus y Rhaglen Datblygu Gwledig, ond ffermwyr yw cynulleidfa darged Gwlad felly mae'n llai defnyddiol fel ffordd o gyfathrebu gyda buddiolwyr Echel 3 a 4. Roedd rhai pryderon hefyd bod gan Gwlad gysylltiad rhy agos â Llywodraeth Cymru

Mewn gwerthusiad interim o Rwydwaith Gwledig Cymru a'r Strategaeth Cyfathrebu a gyhoeddwyd yn 2012, y casgliad cyffredinol oedd bod deunyddiau cyfathrebu a gyhoeddir yn ganolog o ansawdd uchel ac wedi gwella wrth i'r rhaglen symud yn ei blaen (ag eithrio'r presenoldeb ar y we). Fodd bynnag, ni chredir eu bod wedi cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

Yn rhan o'r gwerthusiad *ex-post* yma, dywedodd staff Llywodraeth Cymru wrthym fod y prosiect strategaeth cyfathrebu wedi'i derfynu yn dilyn gwerthusiad yn 2012, a symudwyd y gweithredu i mewn i Rwydwaith Gwledig Cymru i wella effeithioldeb a chydlyniad (gwelwch hefyd PSEQ 29 yn yr Adroddiad Technegol). Rydym yn gweld hyn fel tystiolaeth bod sylw wedi'i roi i'r angen i adolygu'r dulliau cyfathrebu, ac yn arbennig sensitifrwydd i'r cydbwysedd rhwng gweithgareddau wedi eu trefnu'n ganolog a gweithgareddau ar lefel cynlluniau.

## 8. Casgliadau ac argymhellion

Er bod casgliadau wedi'u nodi yn Adran 5 wrth ystyried cyflawniadau Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13, mae'n ddefnyddiol ail edrych ar y prif ganfyddiadau ar y pwynt yma.

Gan edrych ar y darlun cyfan, daeth y gwerthusiad *ex-post* i'r casgliad bod y Rhaglen Datblygu Gwledig yn berthnasol i'r amcanion a osodwyd iddi, ei bod yn ***gydlynol*** (yn yr ystyr bod ei strwythur o gynlluniau wedi arwain at yr amcanion a bod yr amrywiol gynlluniau'n gweithion dda gyda'i gilydd) a bod ***adnoddau wedi'u dyrannu mewn dull effeithlon***. Mae tystiolaeth hefyd bod ystyriaeth wedi ei roi i'r defnydd gorau o'r arian oedd ar gael a bod yr arian wedi cael ei ddyrannu'n briodol. Aseswyd bod darpariaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig yn ***effeithiol ac effeithlon*** er bod mannau allai fod yn well. Nid oedd digon o dystiolaeth i asesu rhesymoldeb y costau darparu, er nad oedd unrhyw beth i awgrymu bod y rhain yn afresymol.

Yn nhermau gwella ***gallu cystadleuol y sectorau amaethyddol a choedwigaeth***, gwelsom fod mesurau a chynlluniau Echel 1, oedd wedi'u llunio gyda hyn mewn golwg, bron yn sicr wedi darparu ar yr amcan yma, er bod gwahanol fesurau (a gwahanol elfennau o'r cynlluniau) wedi gwneud cyfraniadau amrywiol yn ôl eu cynllun a'u pwrpas. Er bod tystiolaeth gref i ddangos effaith bositif (os cymhedrol) gan Cyswllt Ffermio, nid oedd digon o ddata i fesur effaith mesurau eraill. Fel y disgwyliwyd roedd effaith Echelau 2 a 3 yn finimol ac, yn achos Echel 3 yn amhosibl weithiau i'w chysylltu'n benodol â'r sectorau ffermio a choedwigaeth lle dehonglir y term yma yn yr ystyr gul, gonfensiynol.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod y gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi peri cynnydd yn y Gwerth Ychwanegol Gros i fuddiolwyr. Ond o'u gosod yng nghyd-destun yr economi gwledig cyfan, mae'r ***cynnydd hwn mewn gweithgaredd economaidd yn weddol fach***. Nid yw hyn yn syndod o ystyried yr

adnoddau sydd ar gael a'r ffaith fod y mwyafrif o'r adnoddau hyn wedi'u gwario ar fesurau Echel 2 nad oedd disgwyl iddynt gael effaith economaidd. Mae'n amlwg bod arloesedd wedi chwarae rhan yn hyn, yn bennaf ar ffurf cyflwyno cynhyrchion a/neu dechnegau newydd a mynd i mewn i farchnadoedd newydd. O droi at gyflogaeth, daethom i'r casgliad bod gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi arwain at greu oddeutu 3,000 o swyddi, yr oedd oddeutu eu hanner wedi'u hystyried yn gynaliadwy ac yn uniongyrchol berthnasol i'r gweithgareddau a gefnogir. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dod i'r casgliad bod yr holl swyddi yma wedi'u creu'n gyfan gwbl gan y gweithgareddau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig neu na fyddent wedi cael ei greu heb unrhyw gefnogaeth.  Roedd creu cyflogaeth yn y sector cynradd a phrosesu bwyd yn gyfatebol ag oddeutu 3% o'r holl gyflogaeth yn y sectorau hyn. Mae arallgyfeirio busnesau fferm, wedi'i yrru drwy hyfforddiant a chyngor a grantiau, wedi darparu 127 o swyddi newydd yr adroddwyd amdanynt, wedi diogelu 192, wedi creu 196 o gynhyrchion neu wasanaethau newydd nad ydynt yn amaethyddol ac wedi mynd i mewn i 77 o farchnadoedd newydd.

Drwy Fesurau a chynlluniau Echel 3 (a ddarparwyd mewn cysylltiad ag Echel 4) gwnaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig gyfraniad uniongyrchol i ***wella ansawdd bywyd*** mewn nifer o ffyrdd, yn benodol ar ffurf cefnogaeth a ddarperir ar gyfer gwasanaethau sylfaenol ar gyfer y boblogaeth economaidd a gwledig (yn cynnwys y Cynllun Cymorth Band Eang), adnewyddu a datblygu pentrefi, a chadw ac uwchraddio'r dreftadaeth wledig. Un effaith bositif anuniongyrchol a gododd o ystod o fesurau eraill oedd yn berthnasol i greu/cynnal swyddi, darparu sgiliau newydd a hyfforddiant. Darparodd Echel 2 welliant cyffredinol mewn ansawdd bywyd drwy ddarparu nwyddau cyhoeddus. Gwnaeth yr agwedd LEADER gyfraniad positif tuag at ***wella llywodraethu lleol*** drwy annog a ffurfioli democratiaeth leol gyfranogol yn ogystal â pherchnogaeth ac ymgysylltiad cymunedol, er bod amrywiadau rhwng ardaloedd ("loteri'r codau post") yn y cyfraniad positif yma. Roedd cyfraniad ehangach yr agwedd LEADER hefyd yn cynnwys ***cynyddu gallu, dod â phobl at* ei *gilydd, hybu arloesedd, darparu cyngor ac arweiniad a chyfeirio at y Rhaglen***

***ehangach***. Ymhellach, roedd y cydweithrediad a'r rhwydweithio a ddatblygwyd gan yr agwedd LEADER ***wedi gwella perfformiad economaidd yr ardal***, gyda'r mwyafrif mawr o gyfranogwyr mewn partneriaethau a LAGs, yn ogystal â rhanddeiliaid Rhaglen Datblygu Gwledig, yn sôn am fuddion. O'r rhain, y rhai y soniwyd amdanynt fwyaf oedd bod yn rhan o'r rhaglen, cynyddu ymwybyddiaeth o weithgareddau lleol a rhwydweithio/gweithio ar draws y sectorau.

Roedd mesurau a chynlluniau Echel 2 yn cyfrif am ddwy ran o dair o'r gwariant o dan Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13. Nid oedd hi'n bosibl darparu barn feintiol am effaith y Rhaglen Datblygu Gwledig yn nhermau ei chyfraniad at amddiffyn a gwella ***adnoddau naturiol a thirlun yn cynnwys bioamrywiaeth a ffermio a choedwigaeth sydd o werth mawr i natur (HNV)*** oherwydd bylchau mewn data, y cyfnod o amser rhwng y gweithgaredd a'r effaith ac ansicrwydd ynglŷn â phriodoliad. Er na chyrhaeddwyd y targed ar gyfer yr ardal o dan reolaeth ar gyfer bioamrywiaeth, roedd 552,030 hectar o dir o dan reolaeth tir llwyddiannus a gynlluniwyd i gyfrannu at welliannau mewn bioamrywiaeth.

Llwyddodd cynlluniau i wella ***ansawdd dŵr*** i ddod a 432,998 o hectar o dan reolaeth tir, er bod hyn yn llai na'r targed a osodwyd. Nid oedd data i ganiatáu asesiad meintiol uniongyrchol o'r graddau yr oedd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 wedi cyfrannu at ***liniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd***, er bod rhyw 417,190 hectar wedi dod o dan gytundebau rheoli tir gyda'r amcan yma mewn golwg. Mae canlyniadau modelu'n awgrymu bod cynnydd mewn enciliad carbon (12.2%) a gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (5.2%) wedi digwydd o dan y cynlluniau Tir Cynnal a Tir Gofal, ond roedd effaith y cynllun a'u dilynodd, Glastir, ychydig yn fwy cymedrol. O ddweud hynny, roedd gan y gwaith o greu coetir o dan Glastir y potensial i ostwng tir cynhyrchu llifogydd o hyd at 9% yn y dyfodol. Roedd agweddau eraill o'r Rhaglen Datblygu Gwledig, nad oeddent yn rhai Echel 2, wedi cyfrannu hefyd at liniaru'r newid yn yr hinsawdd drwy gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

## Argymhellion

Mae'n rhaid i'r argymhellion sy'n codi o'r gwerthusiad *ex-post* yma o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 gadw mewn cof y ffaith fod y Rhaglen ar gyfer y cyfnod dilynol wedi ei llunio'n barod, gan dynnu ar werthusiadau blaenorol a gwersi a ddysgwyd, ac mae eu gweithrediad ar waith ers amser. Bydd angen i ni seilio ein argymhellion ar ein casgliadau ar y cam yma ac mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol ac yn ymarferol i'w hystyried mewn Rhaglenni Datblygiad Gwledig yn y dyfodol neu mewn unrhyw bolisïau cenedlaethol y gallai Llywodraeth Cymru eu mabwysiadu ar ôl y pontio o'r Undeb Ewropeaidd.

***Argymhelliad 1 – symud i ffwrdd oddi wrth y dull Echelau***

Mae llawer o esiamplau'n darparu tystiolaeth i ddangos bod strwythur Echelau Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 wedi creu rhwystrau rhwng amcanion a fyddai wedi bod yn well wedi eu hintegreiddio.

O edrych arnynt o safbwynt yr Undeb Ewropeaidd cyfan, efallai bod rhywfaint o fanteision ar y pryd mewn grwpio gweithgareddau cefnogi'n bedair Echel, ond ni fyddai unrhyw reswm dros gefnogi dull o'r fath ar gyfer y Rhaglenni Datblygiad Gwledig dilynol am nad oedd hyn fel petai'n dod ag unrhyw fanteision arbennig i Gymru.

Gallai diddymu'r Echelau yma ei gwneud hi rywfaint yn haws i ailddyrannu cyllid i'r mannau lle'r oedd yr anghenion yn gynyddol amlwg. Am nad yw'r rheoliadau sy'n llywio Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-20 yn mynnu cael strwythur o'r fath, rydym yn argymell y dylid manteisio ar y ffaith y byddai diddymu'r Echelau'n dod â mwy o hyblygedd, cyfatebolrwydd a chydlyniad.

***Argymhelliad 2 – ymgorffori'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid o fewn y Rhaglen Datblygu Gwledig***

Rydym wedi nodi mai'r ffordd fwyaf amlwg o roi cefnogaeth i ffermwyr ifanc/newydd-ddyfodiaid i Gymru yn y cyfnod 2007-13 oedd drwy'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid, a gafodd ei ariannu'n genedlaethol ac a oedd y tu allan i fframwaith Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru. O dybied bod y grŵp yma'n parhau i fod yn flaenoriaeth, rydym yn argymell, er budd cydlyniad, y rhoddir ystyriaeth i gynnwys Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid o fewn y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf. Fodd bynnag, rydym yn nodi y gallai hyn wrthdaro gydag Erthygl 8 o Reoliad Cyngor (CE) Rhif 1698/2005 sy'n cyfyngu ar geisiadau i dargedu grwpiau penodol; efallai nad yw hyn yn berthnasol bellach yn dilyn y pontio o'r Undeb Ewropeaidd.

***Argymhelliad 3 – rhesymoli'r ddarpariaeth cyngor a gwybodaeth***

Er mai Cyswllt Ffermio, o dan Fesur 111, oedd prif ddarparydd Trosglwyddo Gwybodaeth a chyngor i ffermwyr, nid dyma oedd yr unig un (gwelwch hefyd Argymhelliad 1); yn arbennig, mae darpariaeth eglur o dan y cynllun Grant Prosesu a Marchnata. Byddai'n ymddangos yn rhesymol i gael siop un alwad ar gyfer y gyfres gyfan o wybodaeth a mynediad at wasanaethau cynghori a ddarperir o'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'r argymhelliad yma wedi derbyn ystyriaeth ar gyfer y Rhaglen newydd, gyda Busnes Cymru'n cyflawni rôl gyfeirio ganolog i fusnesau nad ydynt yn amaethyddol yng Nghymru, ond yn cadw cysylltiadau â Cyswllt Ffermio. Roedd Cyswllt Ffermio'n gyfrifol am ddarparu'r Gwasanaeth Cynghori Ffermydd, sy'n ymwneud â chyngor am gydymffurfio a ariennir o dan Fesur 114. Rydym yn argymell y dylid ystyried ymestyn yr egwyddor yma i groesawu gwasanaeth cynhwysfawr. Byddai angen dadlau'n argyhoeddiadol ynglŷn ag unrhyw ddarpariaeth y tu allan i'r fframwaith yma (er enghraifft, ar faterion amgylcheddol arbenigol a choedwigaeth).

Un mater sy'n ymwneud yn agos â hyn yw a ddylai hyfforddiant mewn sgiliau busnes a chyngor i ffermydd a busnesau gwledig eraill ffurfio rhan o wasanaeth drwy'r economi cyfan. Mae llawer o'r sgiliau busnes yma nad ydynt yn benodol i amaethyddiaeth a choedwigaeth (er bod sgiliau technegol yn aml yn benodol i'r rhain). Mae arallgyfeirio'n awgrymu bod ffermwyr yn symud i mewn i weithgareddau nad ydynt yn amaethyddol, ac roedd cefnogaeth i fusnesau nad ydynt yn ffermydd, hyd yn oed o dan Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 yn ymddangos yn ehangach (busnesau ymhellach ar hyd y gadwyn fwyd a micro-fusnesau). Felly un argymhelliad yw rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae modd trefnu ac ariannu system integredig o drosglwyddo gwybodaeth a chyngor, er efallai y bydd yn rhaid i hyn aros nes bo'r pontio o'r Undeb Ewropeaidd wedi digwydd. Fodd bynnag, ni ddylai hyn amcannu'n rhy isel y fantais o gael system sydd wedi'i seilio ar sectorau i ymdrin â materion technegol wedi'u seilio ar y tir (megis cyngor ar faterion amgylcheddol a lles anifeiliaid).

***Argymhelliad 4 – ystyried gwneud Rhwydwaith Gwledig Cymru'n annibynnol i Lywodraeth Cymru***

Mae tystiolaeth i ddangos bod Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi gwneud gwaith defnyddiol i helpu i ddarparu Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-13, yn arbennig drwy hwyluso'r cyfathrebu rhwng cyfranogwyr yng Nghymru, er bod hyn yn llai gofynnol yn ei rôl mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth gyda Rhaglenni Datblygiad Gwledig eraill y Deyrnas Unedig ac ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, beirniadwyd y ffaith fod y Rhwydwaith wedi cael ei osod o fewn Llywodraeth Cymru am fod hyn yn ei wneud yn llai effeithiol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu rhesymwaith parhad ac ariannol cadarn dros barhau â'r trefniant yma, rydym yn argymell y dylid ystyried ei weithredu o dan gontract y tu allan i fframwaith y Llywodraeth, gydag amcanion a thargedau clir.

***Argymhelliad 5 – adolygu'r dull Strategaeth Cyfathrebu***

Roedd aildrefnu'r Strategaeth Cyfathrebu yn ystod bywyd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13 a'i ymgorfforiad â Rhwydwaith Gwledig Cymru yn arwydd clir nad yw'r fformwleiddiad gwreiddiol yn llwyddiannus. Ond, mae'r ffaith ei bod hi'n well o hyd gan nifer o'r cynlluniau (yn anad dim Gyswllt Ffermio a Glastir) redeg eu cyfathrebiadau eu hunain, yn awgrymu bod y problemau gydag agwedd integredig wedi parhau ac y dylid ail edrych ar y ffordd y rhoddir gwybod i'r buddiolwyr am bosibiliadau cymorth, ac i ba raddau y mae hyn yn cael ei ganoli.

***Argymhelliad 6 – ailystyried y model darparu cymorth sydd o fewn Echelau 3 a 4 ar hyn o bryd***

Er bod elfennau atyniadol, mewn egwyddor, yn y syniad o deilwra ymyriadau i angenion datblygiad lleol, fel y maent wedi'u dangos mewn Strategaethau Datblygiad Lleol, mae'r ffaith fod hyn yn gallu arwain at ddarpariaeth sy'n gwahaniaethu'n fawr rhwng ardaloedd (y 'loteri cod post') yn amlwg yn achosi beirniadaeth o ran cydraddoldeb ac egwyddor. Rydym yn argymell bod dewisiadau Cymru-gyfan eraill yn cael eu hystyried, ond gan ymgorffori systemau sgorio sy'n caniatáu rhywfaint o amrywiaeth lleol. Bydd yn rhaid gwneud hyn yn yr amgylchedd greu polisïau fydd yn dilyn y pontio o'r Undeb Ewropeaidd, am na fydd y Rheoliadau Undeb Ewropeaidd yn caniatáu hyn.

Yn gysylltiedig â hyn, er bod modd cyfiawnhau'r dull cystadleuol o ddyfarnu cyllid prosiect yn nhermau cynyddu ansawdd y prosiectau sy'n ennill cefnogaeth, mynegwyd y farn fod yr elfen o gystadleuaeth o bosib wedi tueddu i wneud i bobl/sefydliadau ddewis peidio cydweithio a bod hyn wedi tanseilio effeithiolrwydd potensial y rhaglen.

Cafwyd awgrym hefyd fod nodweddion gwreiddiol LEADER wedi eu colli neu eu gwanhau gan y trefniadau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod 2007-13, ac y byddai'n fuddiol mynd yn ôl at y gwreiddiol.

Gyda'i gilydd, mae'r arsylwadau yma'n awgrymu y dylid ail edrych ar y ffordd y cafodd Echelau 3 a 4 eu darparu. Rydym yn nodi, ar sail arsylwadau tebyg, bod Llywodraeth Cymru'n newid y defnydd a wneir o LEADER yn radicalaidd yn y cyfnod rhaglennu 2014-20 a bod hyn yn rhywbeth a groesawn, er nad yw rhoi sylw am effeithioldeb yr aildrefnu yn rhan o gwmpas y gwerthusiad yma.

***Argymhelliad 7 – Gwahaniaethu'n fwy eglur rhwng gweithgareddau prif ffrwd a gweithgareddau arloesol/arbrofol o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig***

Mae'r argymhelliad yma, mewn cydweithrediad agos â'r un blaenorol, yn nodi y byddai gwahaniaethu mwy eglur rhwng agweddau arbrofol/arloesol a phrif ffrwd yn galluogi i'r rhai arbrofol/arloesol weithredu'n fwy effeithiol, ac eto adael i gynlluniau prif ffrwd wneud yn fawr o'r nifer o adnoddau y gallent alw arnynt ac, felly, eu heffaith ar amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae cynlluniau prif ffrwd, megis Cyswllt Ffermio a Glastir wrth gwrs, yn dal i gyfeirio sylw at wella'r ffordd y maent yn gweithredu, ond byddai'r gwahaniaethu cliriach yn gwneud arloesi, a'r posibilrwydd anochel o fethiant, yn fwy atyniadol mewn cynlluniau fel LEADER.

***Argymhelliad 8 – gwella argaeledd y dystiolaeth o berfformiad***

Problem dymor hir a welir mewn gwerthusiadau ers o leiaf y gwerthusiad canol tymor o Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2000-06 yw problem yn ymwneud ag argaeledd tystiolaeth. Er bod gwelliannau mawrion wedi digwydd, yn arbennig yn y ffordd y mae data monitro'n cael ei ddal a'i gyrchu, mae'r gwerthusiad *ex-post* yma wedi canfod bylchau mewn gwybodaeth unwaith eto. Mae dau yn arbennig o nodedig:

- Mae nifer o fylchau yn y dangosyddion sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud ag effeithiau. Am fod yr angen i boblogi'r dangosyddion yma wedi bod yn hysbys ers blynyddoedd lawer, mae hyn yn siomedig.

- Nid yw gwerthusiadau o rannau o'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi cynhyrchu'r wybodaeth yn unol â gofynion y Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin. Yn arbennig, mae'r rheiny sy'n ymwneud ag Echel 3 a 4 wedi defnyddio methodolegau anghymesur nad ydynt yn ddefnyddiol. Unwaith eto, mae'n bosib y byddai cynllunio gwerthusiadau is-raglenni'n well, a rhywfaint o gydlyniad canolog, wedi dod ag amrywiaeth o ganfyddiadau a fyddai'n fwy perthnasol i werthusiadau lefel rhaglen gorfodol ac yn fwy defnyddiol i Lywodraeth Cymru ar y lefel genedlaethol.

Ein hargymhelliad felly yw dod â gwelliannau yn y cyfeiriadau a awgrymir. Dylai'r rhain hwyluso gwerthusiadau o'r rhaglen gyfredol o fewn fframwaith y Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin. Wrth gwrs, yn y sefyllfa debygol lle'r ymadewir â'r CAP a'i bolisi datblygiad gwledig, gallai cydymffurfiad â'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin ddod yn amherthnasol, er bod cyfres o ddangosyddion cadarn sydd wedi'u llunio'n ystyrlon (sy'n gallu adlewyrchu materion megis ychwanegolrwydd ac afleoliad) a gwerthusiadau integredig ar lefel y cynllun (sydd, ymysg pethau eraill, yn ymdrin ag achosiaeth) yn sylfaen da ar gyfer asesu unrhyw bolisi datblygiad gwledig cenedlaethol yng Nghymru ar ôl y pontio o'r Undeb Ewropeaidd. Mae perfformiad gweithredoedd datblygiad gwledig yn debygol o fod o bryder cynyddol os bydd cymorth incwm uniongyrchol yn cael ei ostwng, fel sy'n ymddangos yn debygol, ac y mae dibynadwyaeth yr wybodaeth am gyflawniadau'n dechrau achosi pryder gwleidyddol. Gallai system o'r fath fynd y hwnt i gyfyngiadau'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin i ymdrin â meysydd o effaith, yn enwedig o dan Echelau 3 a 4, sy'n syrthio y tu allan i'r fframwaith gwerthuso presennol.

***Argymhelliad 9 – anelu am fwy o hyblygrwydd yng nghynllunio'r Rhaglen Datblygu Gwledig***

O ystyried y ffaith fod siâp Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-20 wedi ei benderfynu'n barod, a bod natur y polisi datblygiad gwledig o 2021 ymlaen yn y Gymru ar ôl y pontio o'r Undeb Ewropeaidd yn ansicr hyd yn hyn, ein hargymhelliad yw osgoi ymyriadau a chynlluniau sy'n cyflwyno anhyblygedd, a rhoi'r ffocws ar y rheiny sy'n gallu bod yn hyyblyg.

Mae tystiolaeth, yn arbennig yn Echel 2, bod cynlluniau etifeddol gyda chytundebau tymor hir ar lefel y fferm, wedi rhoi cyfyngiadau sylweddol ar yr hyn y gellid ei gynnig o dan Raglen Datblygu Gwledig Cymru 2007-13. Er bod ffermwyr a pherchnogion angen sicrhad o sefydlogrwydd wrth gwrs cyn iddynt gytuno i wneud buddsoddiadau (economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol), rhaid cydnabod hefyd y gallai cefnogaeth i amaethyddiaeth fod yn wahanol iawn yn dilyn y pontio o'r Undeb Ewropeaidd, gyda llai o daliadau incwm uniongyrchol.

Mae'r nodweddion a'r problemau sylfaenol y mae ardaloedd gwledig yn eu hwynebu yn annhebygol o addasu'n sylweddol, ac felly ni fydd yr amcanion strategol ar gyfer polisi gwledig yn newid, ond mae hi bron yn sicr y bydd amgylchfyd y polisi yn newid. Mae hyn yn awgrymu y dylai'r sylw yn Rhaglenni Datblygiad Gwledig y dyfodol ganolbwyntio ar ffactorau a fydd yn caniatáu i ardaloedd gwledig Cymru fod yn wydn, megis adeiladu sgiliau'r gweithlu gwledig, amrywiaeth ei sail economaidd, y seilwaith sy'n cyflenwi gwybodaeth a chyngor, cyfalaf cymdeithasol ei chymunedau, ac yn y blaen.

Yn ddelfrydol, dylai ymyrraeth o'r fath fod yn hunan-gynhaliol, yn yr ystyr ei fod yn mynd yn ddianghenraid wrth i welliannau ddod yn weithredol. Efallai y bydd angen rhywfaint o ymyrraeth barhaol wrth sôn am ddarparu nwyddau cyhoeddus (megis bioamrywiaeth ac ansawdd y tirlun), oherwydd bydd methiant y farchnad yn tueddu i

barhau, ond hyd yn oed yno, efallai y bydd hi'n bosibl cyflwyno mecanweithiau sy'n galluogi i'r sector preifat ysgwyddo rhywfaint o'r baich (cwmnïau dŵr i gael dŵr glanach, gan ostwng eu costau triniaeth, er enghraifft). Yr argymhelliad allweddol, fodd bynnag, yw y dylai'r pwyslais fod ar ffactorau sy'n hybu gallu ardaloedd gwledig, pobl a busnesau i addasu, ac ni ddylai'r Rhaglen Datblygu Gwledig ei hun gyflwyno ffactorau sy'n lleihau'r gallu yma i addasu ymhellach.